

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 66/2021

DYDDIAD CYHOEDDI: 07/10/2021

Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaeth: Adroddiad Cwmpasu

Teitl: Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaeth
Is-deitl: Adroddiad Cwmpasu

Awdur(on): Oliver Allies, Declan Turner, Llorenc O'Prey,
Duncan Melville, Lovedeep Vaid



Allies, O. Turner, D. O'Prey, L. Melville, D. Vaid, L. (2021). *Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaeth: Adroddiad Cwmpasu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 66/2021.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-prentisiaeth-gradd-adroddiad-cwmpasu>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Semele Mylona

Yr Isadran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr tablau.....	2
Rhestr ffigurau	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad a Chefndir	4
2. Methodoleg	12
3. Canfyddiadau	16
4. Theori Newid a Model Rhesymeg	44
5. Crynodeb o'r Canfyddiadau a'r Camau Nesaf	55
Cyfeiriadau.....	59

Rhestr tablau

Tabl 3.1: Recriwtio Gradd-brentisiaethau 2018/19 a 2019/20	35
Tabl 3.2: Gradd-brentisiaethau – Dyraniad a Recriwtio 2020/21	36
Tabl 3.3: Gradd-brentisiaethau – Cyflogeion Presennol a Newydd 2020/21	37
Tabl 3.4: Gradd-brentisiaethau – Nodweddion Gwarchodedig 2020/21	38
Tabl 3.5: Gradd-brentisiaethau – Nodweddion Gwarchodedig 2020/21	38
Tabl 3.6: Gradd-brentisiaethau – Cyflogwyr	40

Rhestr ffigurau

Ffigur 4.1: Enghraifft o Theori Newid Llinol	44
Ffigur 4.2: Llwybr Canlyniadau ar gyfer y Rhaglen Gradd-brentisiaeth	46
Ffigur 4.3: Theori Newid Llinol	47

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
AB	Addysg Bellach
AHG	Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol
AU	Addysg Uwch
BBaCh	Busnes Bach a Chanolig
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CEPR	Centre for Economic Policy Research
CIPD	Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu
DSW	Dysgu Seiliedig ar Waith
EconLit	Economics Literature
ERIC	Education Resources Information Center
ESW	Sgiliau Hanfodol Cymru
HESA	Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
HNC	Tystysgrif Genedlaethol Uwch
HND	Diploma Cenedlaethol Uwch
ILO	Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol
IZA	Institute of Labor Economics
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
NTfW	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
PSRB	Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio
QAA	Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch
QCF	Fframwaith Credydau a Chymwysterau
RPL	Cydnabod dysgu blaenorol
RSP	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
SAU	Sefydliad Addysg Uwch
SSC	Cyngor Sgiliau Sector
STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg

1. Cyflwyniad a Chefnidir

Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Chwefror 2020 comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r rhaglen Gradd-brentisiaeth yng Nghymru i asesu ei heffeithiolrwydd, ei heffeithlonrwydd a'i heffaith. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno penllanw'r canfyddiadau ymchwil sy'n deillio o gam cwmpasu'r gwerthusiad.
- 1.2 Yn sgil ei nodi yn nod allweddol yng nghynllun polisi Prentisiaeth a Sgiliau Llywodraeth Cymru (2017) ac yn argymhelliad penodol yn Adolygiad Diamond o Gyllid Addysg Uwch (2017), cafodd y rhaglen Gradd-brentisiaeth ei lansio yng Nghymru ym mis Ionawr 2018.
- 1.3 I ddechrau arni, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid o tua £20 miliwn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer tair blynedd gyntaf y rhaglen, gyda disgwyl i'r prentisiaid cyntaf gofrestru yn y rhaglen ym mis Medi 2018.
- 1.4 Mae'r rhaglen Gradd-brentisiaeth yn cyflawni yn erbyn ystod eang o amcanion polisi; fodd bynnag, rhoddwyd y ffocws cychwynnol ar gefnogi'r canlynol:
 - Adlinio'r system brentisiaethau i ddarparu sgiliau lefel uwch yn ôl anghenion cyflogwyr ac economi Cymru, fel y'u mynegir drwy flaenoriaethau gweinidogol.
 - Sicrhau dilyniannau o'r rhaglen brentisiaeth bresennol i addysg uwch, gan gryfhau cryn dipyn ar hygyrchedd a hygyrchedd cynnig prentisiaeth Llywodraeth Cymru i'r rhai sydd â dyheadau uwch, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi dilyn llwybr y chweched dosbarth/coleg.
- 1.5 Yn 2016, wrth ragweld rhaglen Gradd-brentisiaeth yng Nghymru, aeth CCAUC ati i wahodd sefydliadau Addysg Uwch (SAU) i gyflwyno cynlluniau i ddatblygu cymwysterau a allai ddod yn rhan o fframwaith prentisiaeth yng Nghymru ym meysydd TG/Cyfrifiadura, Peirianeg, a Gweithgynhyrchu Uwch. Nodwyd y meysydd hyn gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSP) i fod yn sectorau oedd

â phrinder sgiliau mewn galwedigaethau technegol a medrus iawn sy'n gyrru cynhyrchiant.¹

- 1.6 Mewn ymateb, nodwyd bod y meysydd canlynol yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru lle gellid datblygu cymwysterau ac a allai fod yn rhan o radd-brentisiaeth:
- Rheolaeth ac offeryniaeth
 - Gwyddor data
 - Peirianeg sifil
 - Y cyfryngau digidol
 - Peirianeg meddalwedd
 - Peirianeg fecanyddol
 - Peirianeg gweithgynhyrchu
 - Seiberddiogelwch.
- 1.7 Yn dilyn y broses hon, comisiynodd Llywodraeth Cymru fframwaith gradd-brentisiaeth Digidol a hefyd fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch ar gyfer y meysydd a enwir uchod. Er y llwyddwyd i gyhoeddi'r fframwaith Digidol ar 29^{ain} Ebrill 2018, bu oedi wrth gwblhau'r fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch. O ganlyniad, roedd ceisiadau ar gyfer gradd-brentisiaethau ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen yn gysylltiedig â'r fframwaith Digidol yn unig.
- 1.8 CCAUC sydd wedi goruchwyllo'r cylchoedd ymgeisio cystadleuol blynyddol i ariannu rhaglenni cyflenwi unigol gan sefydliadau AU a ariennir gan CCAUC. Yn y canllawiau i ddarparu'r gradd-brentisiaethau, rhoddir blaenoriaeth gan CCAUC ar gydweithio rhwng sefydliadau AU, colegau Addysg Bellach (AB), a darparwyr eraill dysgu seiliedig ar waith.
- 1.9 Ac eithrio un ohonynt, roedd pob sefydliad AU a ariennir gan CCAUC wedi cyflwyno cais i'r rhaglen ar gyfer y £3miliwn o gyllid a oedd ar gael ar gyfer y flwyddyn gyntaf (yn seiliedig ar ddyraniad o £27,000 fesul gradd-brentis ar gyfer eu gradd-brentisiaeth gyfan).

¹ Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru (2017): <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cysoni%E2%80%99r-model-prentisiaethau-ag-anghenion-economi-cymru.pdf>

- 1.10 Ym mis Mawrth 2019, gwahoddwyd sefydliadau a ariennir gan CCAUC i gyflwyno ceisiadau ar gyfer £5 miliwn o gyllid ar gyfer 2019/20 yn erbyn y tri maes blaenoriaeth, sef Digidol (yn y Fframwaith Gradd-brentisiaeth Digidol [Cymru]) a Pheirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch (yn y Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch [Cymru]). Yn 2020 sicrhodd y rhaglen £12 miliwn o gyllid ar gyfer 2020/21.² Mae cyfnod cyntaf y cyllid ar gyfer y rhaglen Gradd-brentisiaeth yn dod i ben yn 2021.

Y Gwerthusiad

- 1.11 Mae cyfres o amcanion penodol wedi'u pennu ar gyfer y gwerthusiad³, sef:
- Datblygu theori newid ar gyfer y rhaglen.
 - Asesu'r sylfaen dystiolaeth gyfredol sy'n sail i fodelau datblygu a gweithredu gradd-brentisiaethau yn rhyngwladol.
 - Asesu perfformiad y rhaglen yn erbyn nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru a CCAUC, gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.
 - Adolygu a yw'r rhaglen yn cyflawni amcanion, gan gynnwys rhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb a Strategaeth yr Iaith Gymraeg, ac, os ydyw, i ba raddau y mae'n gwneud hynny.
 - Asesu i ba raddau y mae gofynion Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB), fel elfen y gradd-brentisiaethau, yn dylanwadu ar ymgysylltiad cyflogwyr ac/neu brentisiaid â rhaglen, ac a yw'r agwedd hon yn cael ei hystyried yn briodol wrth ddatblygu fframwaith a chwricwlwm.
 - Ymchwilio ac asesu (o ran y sector Addysg Uwch, cyflogwyr, a phrentisiaid):
 - Y galw, dilyniant a recriwtio
 - Y buddion, y cymhelliant a'r ymgysylltu
 - Partneriaeth a chydweithio.

² CCAUC (2020) [Gradd-brentisiaethau yng Nghymru a Chynigion ar gyfer Cyllid 2020/21](#).

³ Llywodraeth Cymru (2019) *Manyleb ar gyfer: Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaeth*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru .

- Asesu gwerth Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW) fel elfen mewn gradd-brentisiaethau, a pha mor briodol yw arferion asesu cyfredol ESW ac/neu asesu anghenion dysgu unigol.
- Adolygu'r prosesau a ddefnyddir i nodi blaenoriaethau'r rhaglen yn y dyfodol, a gwneud argymhellion ynghylch sut y gellir gwella'r rhain.
- Ystyried a darparu amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ffyrdd cynaliadwy o ariannu'r rhaglen Gradd-brentisiaeth.
- Datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso effaith tymor hwy gradd-brentisiaethau, gan gynnwys elfen gwerth am arian o ran y cyllid a wariwyd ar gynnal y rhaglen yn erbyn yr enillion o ran y canlyniadau a gyflawnwyd.

1.12 Caiff y gwerthusiad ei gynnal mewn dau gam:

- Cam cwmpasu (yn arwain at yr adroddiad hwn) sy'n cynnwys casglu tystiolaeth drwy adolygu llenyddiaeth a thrwy ymgysylltu cychwynnol â rhanddeiliaid strategol a oedd yn rhan o gynllunio, gweithredu, rheoli a chyflenwi gradd-brentisiaethau.
- Cam olaf a fydd yn cynnwys gwaith maes gyda chyflogwyr, prentisiaid, darparwyr AU, colegau AB, a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW) i gasglu adborth ar y profiadau o weithredu/cymryd rhan yn y rhaglen Gradd-brentisiaeth.

COVID-19 a'r Effaith Gysylltiedig

1.13 Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gynnydd y rhaglen Gradd-brentisiaeth. Ar 20^{fed} Mawrth 2020, caewyd colegau AB a sefydliadau AU mewn ymateb i'r pandemig. Ar 23^{ain} Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf.⁴ O ran sefydliadau AU, roedd hyn wedi golygu gorfod symud yn gyflym yn eu darpariaeth i gynnig dysgu digidol, o bell, tra sefydlwyd mesurau i ganiatáu ailagor prifysgolion ar gyfer rhywfaint o ddysgu wyneb yn wyneb ym mis Medi 2020. Roedd y 'cyfnod atal byr' dilynol⁵ a rhagor o gyfyngiadau symud

⁴ Gweler [UK Government speeches – PM address to the nation on coronavirus 23rd March 2020](#) i gael manylion llawn am y cyhoeddiad.

⁵ Wedi'i orfodi rhwng 23^{ain} Hydref a 9^{fed} Tachwedd 2020.

cenedlaethol (o 20^{fed} Rhagfyr 2020) wedi arwain at gyfyngiadau pellach ar ddysgu wyneb yn wyneb mewn sefydliadau AU.

- 1.14 Wrth ystyried effaith COVID-19, ym mis Mai 2020 dosbarthodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA, 2020) bapur yn sôn am rai o'r heriau allweddol sy'n wynebu darparwyr a'r ffynonellau cymorth sy'n cael eu defnyddio. Nododd y papur dair elfen allweddol i ddarparwyr adfyfrio arnynt (a fydd yn cael ei adlewyrchu yn ymagwedd y gwerthusiad):
- gallu darparwyr i addasu eu haddysgu/hyfforddiant
 - gallu'r cyflogwr i barhau i ddarparu lleoliad priodol ar gyfer dysgu seiliedig ar waith
 - i ba raddau y gellid parhau i gyflawni gofynion y brentisiaeth.
- 1.15 Her allweddol yn y tymor hwy a nodwyd yn y papur yw cadw dilysrwydd y brentisiaeth a'i gwreiddiau yn y byd dysgu sy'n seiliedig ar waith. Er y gall darpariaeth academaidd barhau fel arfer mewn fformat dysgu o bell/ar-lein, mae'r elfennau seiliedig ar waith yn dibynnu ar sefyllfa'r gyflogaeth ac a yw prentisiaid yn gallu ennill y profiad sydd ei angen neu'n gallu gwneud hynny yn y dyfodol agos. Mae'r graddau y mae hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth yn amrywio, yn dibynnu ar natur y cwrs.
- 1.16 Yn sgil hyn, mae effaith y pandemig, a'r ymateb iddo, wedi'u cynnwys fel amcan pellach ar gyfer y gwerthusiad.

Ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Senedd Cymru i Radd-brentisiaethau

- 1.17 Ym mis Tachwedd 2019 lansiodd Senedd Cymru ymchwiliad a oedd wedi edrych ar weithredu cam cychwynnol y rhaglen Gradd-brentisiaeth a chyfeiriad a photensial gradd-brentisiaethau i'r dyfodol. Roedd lansio'r ymchwiliad wedi digwydd ar yr un pryd â dechrau ar y broses gomisiynu ar gyfer y gwerthusiad hwn.
- 1.18 Derbyniodd y pwyllgor 24 o ymatebion i'w ymgynghoriad gan amrywiaeth o sefydliadau yn y sector AB ac AU a chan gyflogwyr, a daeth yr adolygiad i ben drwy gyhoeddi adroddiad (Senedd Cymru, 2020) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 gyda 12 o argymhellion ar gyfer y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi

cyhoeddi ei hymateb i'r argymhellion hyn, gan dderbyn neu rannol dderbyn pob un ohonynt⁶:

- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu safon fframwaith ar gyfer gradd-brentisiaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr nodi: sut mae'r fframwaith yn bodloni disgwyliadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer gradd-brentisiaethau.
- Dylai Llywodraeth Cymru alluogi, ariannu a chefnogi strwythurau neu grwpiau mwy ffurfiol er mwyn i randdeiliaid perthnasol a'r diwydiant ddod ynghyd i ddatblygu ac adnewyddu fframweithiau gradd-brentisiaethau gan ddefnyddio eu harbenigedd manwl yn yr agweddau galwedigaethol a sector.
- Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei dull o benderfynu pa fframweithiau gradd-brentisiaethau i'w datblygu a'u hariannu yn y dyfodol a sut y bydd yn rheoli unrhyw wrthdaro posibl rhwng cydlyniant rhanbarthol, llwybrau cydlynol ar gyfer dysgwyr, a'r galw economaidd.
- Dylai Llywodraeth Cymru, trwy Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru, ystyried ehangu'r ystod o radd-brentisiaethau sydd ar gael, gan gynnwys cefnogi, ariannu a galluogi datblygiad fframweithiau gradd-brentisiaethau nad ydynt yn cael eu darparu gyda chyllid cyhoeddus, lle mae cyflogwyr yn awyddus i weld hyn yn digwydd.
- Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn gwireddu ei hymrwymiad gwreiddiol i roi £20 miliwn i'r cynllun peilot gradd-brentisiaethau dros 3 blynedd.
- Dylai Llywodraeth Cymru gyfiawnhau cadw dau fodel cyllido gwahanol, a rhoi rhesymau dros barhau â'r model caffael ar gyfer dyfarnu contractau i ddarparwyr prentisiaethau; nodi sut mae hyn yn gydnaws â chael llwybrau dysgu cydlynol o Lefel 2 i Lefel 6 a sut y bydd caffael y ddarpariaeth brentisiaethau newydd yn mynd i'r afael â hyn; a rhoi sicrwydd bod y dull contractiol yn ddibynadwy ac yn effeithiol, gan gynnwys bod gwersi wedi'u dysgu o ddod â phroses gaffael Cymorth Swyddi Cymru i ben.

⁶ Mae ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Radd-brentisiaethau i'w weld yma: [Ymateb Llywodraeth Cymru i Radd-Brentisiaethau](#)

- Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder i'r Pwyllgor ar gostau gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau eraill mewn meysydd pwnc tebyg.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a defnyddio model costio sy'n gyson ar gyfer yr holl ddarpariaethau prentisiaeth o brentisiaethau sylfaen i radd-brentisiaethau ac sy'n adlewyrchu amrywiadau yng nghostau cyflwyno ar draws gwahanol lefelau a phynciau.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu neu gomisiynu strategaeth ar gyfer ehangu mynediad at radd-brentisiaethau ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd a) yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch sicrhau bod gradd-brentisiaethau yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg a dwyieithrwydd, a b) yn casglu data digonol am radd-brentisiaethau a gwblhawyd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer hyrwyddo gradd-brentisiaethau sy'n cynnwys allgymorth i athrawon ac ysgolion ar y cyfleoedd a gynigir gan radd-brentisiaethau, a hefyd sicrhau bod y wybodaeth a'r arweiniad o ran gyrfaoedd yn cynnwys gradd-brentisiaethau.
- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno tystysgrif gradd-brentisiaeth, a ddyfernir gan Awdurdod Ardystio Prentisiaethau Cymru, a fyddai'n sicrhau bod y radd-brentisiaeth wedi bodloni'r holl ofynion hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith ynghyd â'r gofynion academiaidd. Dylai ategu tystysgrif gradd y sefydliad ei hun.

1.19 O ystyried faint o aliniad sydd rhwng yr ymchwiliad uchod a'r gwerthusiad, mae'n bwysig bod canfyddiadau ac argymhellion allweddol yr ymchwiliad yn cael eu hystyried wrth gynllunio'r fframwaith gwerthuso a'r meysydd trafod ar gyfer gweddill y gwerthusiad.

Adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o Radd-brentisiaethau yng Nghymru

- 1.20 Ym mis Awst 2020 comisiynwyd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) gan CCAUC i gynnal adolygiad o radd-brentisiaethau a ariannir gan CCAUC yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020-21. Mae'r adolygiad wedi'i gynllunio i fod yn adolygiad datblygiadol sy'n canolbwyntio ar sut mae darparwyr AU wedi cyflenwi'r rhaglen (gan gynnwys dysgu sy'n seiliedig ar waith [DSW]). Cyhoeddir adroddiad ledled y sector a fydd yn rhoi crynodeb dienw o'r ddarpariaeth a'r canfyddiadau ar gyfer yr holl adolygiadau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu rhaglenni prentisiaeth yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn ategu'r gwerthusiad hwn.

Strwythur yr Adroddiad

- 1.21 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i drefnu fel a ganlyn:
- Amlinella **Rhan 2** y dull methodolegol a ddefnyddiwyd hyd yma yn y gwerthusiad.
 - Cyflwyno **Rhan 3** y canfyddiadau o gam cwmpasu'r gwerthusiad.
 - Mae **Rhan 4** yn nodi theori newid gychwynnol ar gyfer y rhaglen, a hynny'n llywio'r meysydd allweddol i'w hastudio yng ngweddill y gwerthusiad.
 - Mae **Rhan 5** yn crynhoi canfyddiadau'r gwerthusiad, yn cynnig argymhellion cychwynnol ac yn amlinellu'r camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad.

2. Methodoleg

Dull Methodolegol

2.1 Yn syth ar ôl y cyfarfod cychwynnol i roi dechrau ar werthuso'r rhaglen Gradd-brentisiaeth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf mewn ymateb i bandemig COVID-19. Oherwydd yr heriau a gyflwynai hyn i sefydliadau Addysg Uwch (SAU), cyflogwyr, a llunwyr polisi, gohiriwyd y gwerthusiad tan fis Gorffennaf 2020.

2.2 Ers ailddechrau'r gwerthusiad, cynhaliwyd y canlynol yn rhan o gam cwmpasu'r gwerthusiad.

Cyfweliadau Cwmpasu

2.3 Drwy gydol cam cwmpasu'r gwerthusiad, cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau cwmpasu, ar sail un i un yn bennaf (a hynny'n rhithiol drwy Microsoft Teams neu feddalwedd fideogynadledda arall). Yn gyntaf, cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu rhagarweiniol (ym mis Awst/Medi 2020) gyda chwe chynrychiolydd allweddol o Lywodraeth Cymru a CCAUC. Yn y cyfweliadau hyn archwiliwyd y rhesymeg sy'n sail i'r rhaglen Gradd-brentisiaeth ac elfennau penodol ei dyluniad a'i gweithredu, yn ogystal â barn am ei chynnydd. Yn ogystal, roedd y cyfweliadau wedi bod yn gyfle i drafod y blaenoriaethau ar gyfer gweddill y gwerthusiad.

2.4 Cynhaliwyd cam olaf y cyfweliadau cwmpasu (Tachwedd/Rhagfyr 2020) gyda 16 o gynrychiolwyr arweiniol gradd-brentisiaethau ym mhob un o'r sefydliadau AU, yn ogystal â chynrychiolydd o Brifysgolion Cymru. Unwaith eto, oherwydd pandemig COVID-19, cynhaliwyd pob cyfweliad drwy ddulliau rhithwir. Cafwyd enwau'r cysylltiadau i ymgysylltu â hwy gan Lywodraeth Cymru a CCAUC. Mae rhestr o'r rhai a gyfwelwyd a chopi o'r canllaw trafod a ddefnyddiwyd yn y cyfweliadau hynny ar gael ar gais. Casglodd y cyfweliadau safbwyntiau ar ddyluniad a chwmpas y rhaglen Gradd-brentisiaeth. Yna, roedd pob trafodaeth wedi trin a thrafod dull pob sefydliad AU o ymateb i'r cyfle i gymryd rhan yn y rhaglen a'r rhesymeg dros ymateb yn y modd hwnnw.

2.5 Adfyfyriondd y rhai a gyfwelwyd ar eu cynnydd yn gweithredu'r rhaglen a sut roedd eu dull o weithio wedi esblygu. Yn ogystal, rhoesant eu barn ar effaith pandemig COVID-19 ar y cynnydd. Cadarnhawyd hefyd sut y câi gwybodaeth fonitro ei

chofnodi. Daethpwyd â'r cyfweiliadau i ben drwy archwilio cynlluniau a dyheadau ar gyfer gradd-brentisiaethau yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw farn ynghylch a ddylid ehangu'r rhaglen ai peidio ac, os credid y dylid, ym mha ffordd y dylid gwneud hynny a sut y gellid ei hariannu.

Ymchwil Desg

- 2.6 Ynghyd â'r cyfweiliadau cwmpasu, cynhaliwyd adolygiad helaeth o lu o ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Gradd-brentisiaeth. Mae hyn wedi cynnwys adolygu polisïau a dogfennau allweddol sy'n gysylltiedig â dyluniad y rhaglen, diweddariadau yn ymwneud â'r rhaglen (drwy gylchlythyrau CCAUC), a gwybodaeth fonitro ledled y rhaglen, ynghyd ag adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymchwiliad i'r rhaglen Gradd-brentisiaeth a gynhaliwyd gan/ar ran Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Senedd Cymru.

Adolygu Llenyddiaeth

- 2.7 Rhwng Awst 2020 ac Ionawr 2021, cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth ar radd-brentisiaethau a phrentisiaethau ar lefelau uwch yn fyd-eang ac yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig er mwyn archwilio cyd-destun, datblygiad, dyluniad (a rôl cyflogwyr yn y dyluniad hwnnw) a llwyddiant rhaglenni tebyg mewn mannau eraill. Nod yr adolygiad hwn oedd gweld:
- Nifer y modelau sy'n debyg i radd-brentisiaeth mewn gwledydd eraill
 - Sut y rheolir y galw a'r cyflenwad ar gyfer y prentisiaethau hynny
 - Rôl, dylanwad ac ymgysylltiad cyflogwyr yn y prentisiaethau hynny
 - Unrhyw dystiolaeth o effaith y modelau a fabwysiadwyd neu ddadansoddi eu cost a budd.
- 2.8 Canolbwyntiodd yr adolygiad ar dystiolaeth werthuso o ystod eang o ffynonellau, o ymchwil academiaidd a adolygwyd gan gymheiriaid i lenyddiaeth lwyd, gan gynnwys gwerthusiadau gan lywodraethau. Roedd yn cynnwys adolygu cronfeydd data academiaidd gan gynnwys ERIC, EconLit, Web of Science, a Google Scholar, yn

ogystal â llyfryddiaethau sefydliadau ymchwil arbenigol gan gynnwys yr OECD, CEPR, IZA, a'r ILO.⁷

- 2.9 Defnyddiwyd hidlwyr methodolegol i roi ffocws systematig i'r chwiliadau ac adolygiadau eraill o'r dystiolaeth. Fodd bynnag, bu'n rhaid ehangu ar y dull hwn oherwydd prinder ymddangosiadol synthesis ymchwil yn y maes hwn. Wedi hynny, ehangwyd y meini prawf chwilio unwaith eto ddwywaith, yn gyntaf i gael gwared ar hidlwyr methodolegol ac yna i fod yn fwy sensitif i ymchwil yn ei chyfanrwydd ar brentisiaethau.
- 2.10 Mae heriau wedi bod yn gysylltiedig â'r broses hon ac mae'n bosibl bod yna ymchwil ehangach i brentisiaethau mewn gwerthusiadau o raglenni sy'n cynnwys elfennau o ddarpariaeth academaidd drydyddol neu'n ymwneud â sefydliadau AU. Yn ieithyddol, mae cryn amrywio yn yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio prentisiaethau, gan mai yn y Deyrnas Unedig yn unig y defnyddir 'gradd-brentisiaethau' fel ffordd o'i enwi (yng Nghymru a Lloegr yn unig). Mae'r adolygu hwn yn parhau (gyda chrynodeb i'w gael yn rhan 3 yr adroddiad hwn). Pan ymddengys fod yr ymchwil wedi dihysbyddu'r chwilio a'r cyfeiriadau a sgriniwyd, byddwn yn mynd ati'n feirniadol i werthuso cadernid dyluniad yr ymchwil, gan ddefnyddio fersiwn wedi'i haddasu o Raddfa Dulliau Gwyddonol Maryland (SMS).

Gweithdy Theori Newid

- 2.11 Mae datblygu theori newid yn elfen bwysig o gam cwmpasu'r gwerthusiad a chaiff ei defnyddio i esbonio sut y bwriadir i'r buddsoddiad a'r gweithgareddau arwain at gynhyrchu cyfres o ganlyniadau sy'n cyfrannu tuag at effaith a nod terfynol y rhaglen Gradd-brentisiaeth. Er mwyn cynorthwyo i ddatblygu theori newid, cynhaliwyd gweithdy gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CCAUC, a Phrifysgolion Cymru. Dyma'r cwestiynau a archwiliwyd yn ystod y gweithdy:
- Beth yw nod y rhaglen Gradd-brentisiaeth? Beth yw'r canlyniad y mae'r rhaglen yn ceisio'i gyflawni?
 - Beth yw'r canlyniadau canol y ffordd y gallwn eu defnyddio i fapio'r cynnydd y mae'r rhaglen yn ei wneud tuag at y nod hwnnw?

⁷ ERIC – Education Resources Information Center, OECD – Organisation for Economic Co-operation and Development, CEPR – Centre for Economic Policy Research, IZA – Institute of Labor Economics, ILO – International Labour Organization.

- Pa ragdybiaethau a wnaed sy'n sail i'r theori newid? Pa rwystrau y mae angen eu goresgyn a pha rai yw'r galluogwyr allweddol?

2.12 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gweithdy wedi bod yn sail i ddyluniad theori newid gychwynnol ar gyfer y rhaglen (rhan 4), ynghyd â mewnwelediadau o'r llenyddiaeth a'r cyfweiliadau. Mae canfyddiadau o'r theori newid yn rhoi'r fframwaith ar gyfer (gweddill) y gwerthuso ffurfiannol a'r gwerthuso prosesau, gan lywio'r cwestiynau gwerthuso allweddol i'w harchwilio fel y nodir yn y fframwaith gwerthuso.⁸

⁸ Mae'r fframwaith gwerthuso ar gael o ofyn amdano.

3. Canfyddiadau

Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil a wnaed yn ystod cam cwmpasu'r gwerthusiad. Mae'n pwyso'n benodol ar dystiolaeth a gafwyd drwy adolygu dogfennau polisi a dogfennau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, adolygiad llenyddiaeth ar ddulliau rhyngwladol o gynnal gradd-brentisiaethau, gwybodaeth reoli, a thystiolaeth a gasglwyd drwy'r cyfweiliadau cwmpasu.

Modelau Rhyngwladol Gradd-brentisiaethau a Phrentisiaethau Lefel Uwch⁹

- 3.2 Yn rhyngwladol, gwelwyd tuedd tuag at ehangu cyfleoedd prentisiaeth, gan gynnwys mewn darpariaeth sy'n cynnig cynnwys academiaidd trydyddol (Govender a Valand, 2021). Mae meysydd priodol Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG) ac Addysg Uwch (AU) yn draddodiadol wedi cael eu hystyried yn gwasanaethu amcanion economaidd a chymdeithasol gwahanol. Mewn llawer o wledydd mae hyn wedi creu systemau deuol, gyda darparwyr Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol a sefydliadau AU ar y cyfan yn gweithredu yn annibynnol ar ei gilydd (Beach, 2019).
- 3.3 Yn ddiweddar, mae rôl a rhinweddau cymharol hyfforddiant galwedigaethol wedi cael eu trafod yn rhyngwladol. Mae cydnabyddiaeth gynyddol o werth addysg alwedigaethol wrth fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau a pharatoi dysgwyr at y byd gwaith (Ervin et al., 2019). Cafwyd dadleuon cyfatebol ynghylch pwysigrwydd ehangu gwahanol lwybrau i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ar lefel uwch, ac wrth hyrwyddo mwy o gydraddoldeb rhwng addysg a hyfforddiant galwedigaethol ac academiaidd.
- 3.4 Yn rhyngwladol, mae'r rhain a dadleuon eraill wedi arwain at ddiwygiadau sylweddol i systemau addysgol, gan gynnwys yn ymwneud â phrentisiaethau. Mae'r diwygiadau hyn wedi cynnwys ehangu cyfleoedd prentisiaeth yn gyffredinol a chynnig nifer cynyddol o lwybrau i ddysgwyr i wahanol broffesiynau a busnesau. Yn ogystal, maent wedi arwain at ehangu rhaglenni prentisiaeth sy'n ymgorffori darpariaeth hyfforddiant a sgiliau ar lefel uwch a oedd yn draddodiadol yn rhan o

⁹ Yn rhyngwladol, defnyddir termau amrywiol mewn perthynas â phrentisiaethau ar lefel gradd, gan gynnwys 'lefel uwch'.

gyrsiau gradd israddedig neu ôl-raddedig. Mewn nifer o achosion, mae'r rhain hefyd wedi cynnwys gwneud graddau traddodiadol yn fwy perthnasol i fyfwrwr drwy gynnwys mwy o hyfforddiant galwedigaethol. Mae'r diwygiadau hefyd wedi arwain at wanhau'r gwahaniaethau traddodiadol a'r rhaniadau sefydliadol rhwng darparwyr Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol a sefydliadau AU (Ervin et al., 2019).

- 3.5 Ceir gwahaniaethau sylweddol yn natur a graddau diwygiadau'r system brentisiaethau yn rhyngwladol. Ymhlith y rhain mae defnyddio cynnwys a gwybodaeth academiaidd drydyddol o fewn cyrsiau prentisiaeth, ac yn y rôl sydd gan sefydliadau AU yn cydlynw a chyflenwi prentisiaethau. Hyd yn oed mewn gwledydd sydd wedi datblygu dulliau sydd weddol debyg o gynnal prentisiaethau, gall fod cryn amrywio o ran trefn a chynnwys yr hyfforddiant a'r addysgu. Ledled Awstria, yr Almaen, a'r Swistir, er enghraifft, datblygwyd ffurfiau sefydliadol penodol sy'n cysylltu darparwyr Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, sefydliadau AU a chyflogwyr. Mae'r berthynas sy'n bodoli eisoes rhwng sefydliadau AU, darparwyr AHG, a diwydiant a busnes yn ehangach hefyd wedi llywio natur a chyfeiriad y diwygiadau i brentisiaethau (Bauer et al., 2016).
- 3.6 Gyda'i gilydd, mae hyn oll wedi arwain at amrywio sylweddol yn strwythur, cynnwys a ffocws modelau prentisiaeth yn rhyngwladol. Ymhellach, ceir cryn wahaniaethau o fewn y gwledydd eu hunain. Yr Almaen o bosibl yw'r enghraifft orau o hyn, lle ceir amrywiaeth sylweddol yn union natur a graddau'r ddarpariaeth prentisiaethau yn lleol.

Yr Almaen

- 3.7 Yma, mae prentisiaethau yn rhan annatod o'r system addysg, gyda llywodraethau ffederal a siambrau masnach yn ymwneud yn agos â rheoleiddio cynnwys ac ansawdd. Mae dros 40 y cant o'r rhai sy'n gadael yr ysgol uwchradd yn yr Almaen yn cwblhau prentisiaeth, a all bara hyd at dair blynedd. Yn draddodiadol, mae prentisiaethau wedi'u darparu'n bennaf drwy ysgolion a cholegau galwedigaethol; fodd bynnag, bu cynnydd graddol mewn prentisiaethau lefel uwch gan gynnwys rhaglenni sy'n darparu cynnwys ôl-uwchradd. Cafodd y rhaglenni cyntaf i gynnwys sgiliau uwch eu creu drwy ddull o'r gwaelod i fyny gan randdeiliaid lleol a ganfu niche yn y man aneglur rhwng sefydliadau AU a darparwyr Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (Wieland, 2015).

- 3.8 Ar ôl tyfu ac ehangu, mae'r rhaglenni hyn bellach yn ceisio cyfuno dau amgylchedd dysgu gwahanol, sef elfennau gwyddonol mewn sefydliad AU a hyfforddiant ymarferol mewn gweithle (Deißinger, 2000). Mae'r rhaglenni fel arfer yn arwain at radd baglor mewn tair i bedair blynedd ac yn cael eu cyflenwi gan ddarlithwyr, hyfforddwyr o ddiwydiant, ac weithiau athrawon ysgol galwedigaethol (Wieland, 2015). Mae'r rhaglenni hyn yn ehangu'n gyflym ac yn denu sylw cynyddol gan randdeiliaid mawr, gan gynnwys o fusnes a diwydiant. Yn ogystal, mae cryn dipyn o hyblygrwydd yn y math o gydlynw rhwng cwmnïau a sefydliadau addysgol (e.e. Reischl, 2008).

Awstria

- 3.9 Mae'r dull gweithredu yn Awstria wedi ceisio cryfhau ac ymestyn y ddarpariaeth o fewn rhwydwaith presennol y colegau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG). Mae hyn wedi creu strwythur sefydliadol hybrid sy'n darparu hyfforddiant galwedigaethol ac academiaidd ochr yn ochr â'i gilydd. Maent yn cyfuno prosesau dysgu gan ddarparwyr AHG a sefydliadau AU sy'n pontio'r ffin rhwng AHG ac AU yn ogystal â rhwng ffurfiau dysgu pen uchaf yr uwchradd ac ôl-uwchradd. Mae'r cymwysterau a gaiff myfyrwyr drwy eu prentisiaeth yn uchel eu parch, ac mae gan golegau AHG enw rhagorol gyda phobl ifanc a chyflogwyr Awstria (Culpepper, 2007). Mae'r dull hwn wedi rhoi modd i golegau AHG ymsefydlu'n gadarn ac ehangu i diriogaeth sy'n draddodiadol wedi bod gan sefydliadau AU. Yn y Deyrnas Unedig, gwelwyd y gwrthwyneb yn digwydd, sef bod sefydliadau AU wedi cael eu gwahodd i ehangu i ddarpariaeth alwedigaethol drwy radd-brentisiaethau.

Y Swistir

- 3.10 Tebyg yw'r ffordd o weithio yn y Swistir. Ceisiodd y Swistir greu model integredig sy'n dwyn amrywiaeth o randdeiliaid a sefydliadau cyfredol ynghyd mewn strwythur sefydliadol newydd. Cafodd colegau AHG uwch, ysgolion technegol uwch, ac ysgolion economaidd a gweinyddol uwch eu dwyn ynghyd o dan ymbarél Prifysgolion y Gwyddorau Cymhwysol. Yn ogystal, cyflwynwyd rhaglen dystysgrif newydd, sef y fagloraeth alwedigaethol. Mae'r trefniant yn systematig yn cysylltu AHG uwchradd uchaf â darpariaeth ôl-uwchradd sefydliadau AU ond caiff ei gyflenwi drwy ddarparwyr AHG (Trampusch, 2010).

Unol Daleithiau America

- 3.11 Mae profiad yr Unol Daleithiau wedi bod yn wahanol iawn. Yn hanesyddol, prin fu'r ymgysylltu â phrentisiaethau yn gyffredinol, ac mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth bresennol wedi canolbwyntio ar y meysydd adeiladu a gweithgynhyrchu. Er bod rhaglenni prentisiaeth ganolog yn bodoli ar y lefel ffederal, mae cryn amrywio yn lleol, gyda llawer o'r rhaglennu wedi'i drefnu fesul talaith. At hynny, mae amrywiaeth sylweddol o fewn rhaglenni o ran y berthynas a'r strwythurau rhwng sefydliadau'r sector preifat, colegau a sefydliadau AU. Ceir enghreifftiau o raglenni'n cael eu harwain gan ddiwydiant, gan sefydliad AU, a chan ddarparwyr Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yn ymgorffori rhyw fath o gynnwys academiaidd trydyddol (Messing-Mathie, 2015).

Sylfaen Dystiolaeth Ryngwladol ar Effaith

- 3.12 Ymddengys mai ychydig iawn o ymchwil ryngwladol drwyadl sy'n bodoli sy'n archwilio effaith gradd-brentisiaethau. Ni chanfu'r adolygiad o lenyddiaeth unrhyw adolygiadau systematig, meta-ddadansoddiadau neu adolygiadau ehangach, er enghraifft, nac ychwaith unrhyw ymchwil ryngwladol amlwg sy'n mynd ati'n benodol i werthuso prentisiaethau uwch neu lefel gradd.
- 3.13 Gallai'r prinder ymddangosiadol hwn mewn ymchwil a thystiolaeth fod yn gysylltiedig â nifer o ffactorau. Digon gwan ar y cyfan yw'r sylfaen dystiolaeth ehangach sy'n cefnogi ein dealltwriaeth o brentisiaethau traddodiadol. Canfu Overman et al. (2015), er enghraifft, dim ond un astudiaeth arbrofol yn archwilio effaith rhaglen brentisiaethau (Schaeffer, 2014). Archwiliodd yr astudiaeth hon effaith rhaglen a oedd wedi'i hanelu at droseddwy'r ifanc uchel eu risg, sef cymorth sy'n ansoddol ac yn feintiol wahanol i'r rhan fwyaf o brentisiaethau traddodiadol. Gan fod gradd-brentisiaethau eu hunain yn arloesi cymharol newydd, mae'n annhebygol y byddai'r sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi'r dull gweithredu wedi mynd i'r afael â'r cyfyngiadau mewn ymchwil ar brentisiaethau mwy traddodiadol.
- 3.14 Fodd bynnag, mae ymchwil ehangach a allai roi syniad o effeithiolrwydd y ddarpariaeth prentisiaethau yn gyffredinol. Mae eisoes corff o dystiolaeth o ansawdd amrywiol sy'n ymchwilio i fuddion economaidd, gan gynnwys rhai astudiaethau sy'n edrych yn uniongyrchol ar brentisiaethau (e.e. Overman et al., 2015). Mae'r gwerthusiadau hyn fel arfer yn canfod buddion mawr a chadarnhaol o

ran cyflog a chyflogaeth i unigolion sydd wedi cymryd rhan mewn prentisiaethau o'u cymharu ag unigolion nad ydynt wedi gwneud hynny.

- 3.15 Mae cyfyngiadau posibl i ddadansoddiad cymharol a defnyddio tystiolaeth ryngwladol wrth ddeall cyd-destun Cymru. Mae'r amrywedd mawr yn y systemau a'r dulliau mewn perthynas â phrentisiaethau yn y pen draw yn arwain at amrywiadau yn yr union addysg a hyfforddiant y mae pobl ifanc yn eu cael. O ran dadansoddi cymharol, mae'r amrywedd helaeth a chymhleth hwn yn gwanhau'r gallu i gyffredinoli ymchwil a thystiolaeth sy'n deillio o gyd-destunau neu raglenni penodol. Codwyd y mater hwn hefyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC/WAO) (2019), sydd wedi nodi bod y gwahaniaeth cynyddol mewn prentisiaethau ledled y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd eraill yn cyflwyno heriau wrth gyffredinoli canfyddiadau ymchwil ar effaith prentisiaethau.

Y Cyd-destun Polisi ar gyfer Gradd-brentisiaethau yng Nghymru

- 3.16 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2017a) ei chynllun polisi Prentisiaeth a Sgiliau yn 2017 i ddiwallu anghenion economi Cymru a'i phobl. Gosododd Llywodraeth Cymru darged i gyflawni 100,000 o brentisiaethau i ddechrau yn ystod tymor 2016–2021 Cynulliad Cymru. Yn y cynllun, mae Llywodraeth Cymru yn datgan mai'r blaenoriaethau ar gyfer prentisiaethau fydd fel a ganlyn:

- ymateb i brinder sgiliau dybryd
- cyflwyno ymagwedd pob oed
- cefnogi swyddi a thwf
- sicrhau ansawdd uwch a meincnodi
- gwella mynediad, cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol
- darparu prentisiaethau yn Gymraeg
- datblygu llwybrau sgiliau i'r system addysg ehangach, yn enwedig rhwng addysg uwch ac addysg cyflogwyr, gyda gradd-brentisiaethau
- cynyddu cydweithio a phartneriaeth rhwng yr holl randdeiliaid; a
- sefydlu system newydd ar gyfer adolygu a datblygu fframweithiau.

- 3.17 Un o nodau allweddol y cynllun yw'r ymrwymiad i ddatblygu gradd-brentisiaethau yng Nghymru ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â phrentisiaethau mewn galwedigaethau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM).
- 3.18 Ar ôl cyhoeddi'r cynllun prentisiaeth, cyhoeddwyd argymhellion Adolygiad Diamond (2017) ar Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2017. Aeth y panel a oedd yn gysylltiedig â'r adolygiad ati i ystyried y ffordd orau i wella cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni addysg uwch sy'n seiliedig ar waith neu sy'n gysylltiedig â galwedigaeth. Gwelsant *'gyfle i Gymru ddatblygu gradd-brentisiaethau neu ddarpariaeth a noddir gan gyflogwr neu mewn ffordd sy'n gwireddu'r slogan "dysgu wrth ennill"*. Yn ogystal, roeddent o'r farn bod eu hargymhellion yn fecanwaith y bwriedid iddo wella gwaith partneriaeth rhwng colegau AB, sefydliadau AU, darparwyr hyfforddiant, a chyflogwyr.
- 3.19 Roedd yr adolygiad yn cynnwys yr argymhelliad penodol hwn: *'Llywodraeth Cymru i ddarparu arian i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni AU newydd a noddir gan gyflogwyr neu brentisiaethau uwch/gradd-brentisiaeth yn cynnwys prifysgolion, colegau neu ddarparwyr hyfforddiant, drwy fuddsoddiad cyhoeddus newydd o £1 miliwn y flwyddyn'*.
- 3.20 Yn eu hymateb, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddweud: *'Cytunwn fod angen cynyddu nifer y rhaglenni prentisiaeth lefel uwch sydd ar gael, yn enwedig mewn meysydd allweddol fel peirianeg a gweithgynhyrchu uwch. Yng ngoleuni setliadau cyllidebol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, bydd angen ystyriaeth bellach i benderfynu a yw'r cyllid arfaethedig yn ddigonol i gyflawni'r amcanion. Er mwyn helpu hyn byddwn yn ymrwymo £500k ar gyfer datblygu cynnwys lefel gradd perthnasol i gefnogi fframweithiau prentisiaeth lefel uwch yn ystod 2016/2017. O 2017/2018 ymlaen, byddwn yn ymrwymo £5m pellach i brofi a chynnal peilot ar raddfa eang o'r trefniadau hyn'* (Llywodraeth Cymru, 2018).¹⁰
- 3.21 Wedi'i gyhoeddi ym mis Medi 2017, mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, sef Ffyniant i Bawb¹¹, yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer polisi economaidd yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn cydnabod pum maes fel rhai sydd â'r cyfraniad

¹⁰ [Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Adolygiad Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru \('Adolygiad Diamond'\)](#)

¹¹ [Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru, Llywodraeth Cymru](#)

mwyaf posibl i ffyniant a lles hirdymor. Un o'r meysydd hyn yw Sgiliau a Chyflogadwyedd. Y weledigaeth o fewn y flaenoriaeth hon yw cael '*economi sy'n seiliedig ar sgiliau o ansawdd uchel, gan roi'r adnoddau i fusnesau dyfu ac arloesi, a gallu pobl i ffynnu*'. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar hygyrchedd gydol oes i hyfforddiant a'r angen i'r prif lwybrau at sgiliau uwch ategu ei gilydd (gan gynnwys prentisiaethau, dysgu seiliedig ar waith, ac addysg bellach ac uwch).

3.22 Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) (2019) sy'n gyfrifol am werthuso pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei hegwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant ac yn y camau i'w cyflawni mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Ddeddf yn cynnig arweiniad ynghylch sut y dylai Cymru wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy saith nod llesiant sydd am sicrhau:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

3.23 Un o dri maes ffocws polisi (sy'n cyfrannu at 'Ffyniant i Bawb') yn adroddiad SAC yw'r nod o gael 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel yn dechrau yn ystod tymor 2016–2021 Cynulliad Cymru, gyda'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau gwaith a wnaed rhwng mis Chwefror a mis Mai 2019. Yn yr adroddiad nodir drwy gael canran y nifer sy'n dechrau'r **prentisiaethau uwch** i godi o 46 y cant yn 2012 i 58 y cant yn 2018 byddai hynny'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau uwch ar gyfer economi Cymru ac i unigolion gael cyflogaeth ac aros ynddi. Ymhellach, roedd gwerthfawrogiad cadarnhaol ar ffocws 'pob oed' y rhaglen brentisiaeth, gyda nifer yr holl brentisiaid dros 25 mlwydd oed wedi codi i 62 y cant o'i gymharu â 53 y cant yn 2012.

- 3.24 Amlinellwyd sawl maes yn yr adroddiad i fod yn gyfleoedd i wella. Roedd y rhain yn cynnwys **sicrhau bod cyllid yn gynaliadwy yn y tymor hir**. Dywedodd yr adroddiad bod cynyddu'r galw am brentisiaethau, yn enwedig mewn meysydd pwnc STEM mwy costus ac ar lefelau uwch, wedi arwain at benderfyniadau anodd ynghylch cyllido rhai sectorau/lefelau.
- 3.25 Argymhellodd yr adroddiad hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at ddeall yn well y **gost wirioneddol i gyflogwyr o gefnogi prentis**. Byddai hyn yn llywio'n well benderfyniadau ynghylch cymorth yn y dyfodol a chapasiti cyflogwyr i gefnogi rhagor o brentisiaid.
- 3.26 Nododd yr adroddiad y cyfle i **ddeall effaith prentisiaethau ar yrfaeodd ac enillion**. Disgrifiodd yr adroddiad ddiffyg tystiolaeth ar y canlyniadau hirdymor i bobl sy'n cwblhau gwahanol fathau o brentisiaeth o ran dilyniant gyrfa a chyflog. Ymhellach, nododd yr adroddiad y gwahaniaethau cynyddol mewn prentisiaethau ledled y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd eraill, a hynny'n cyflwyno heriau o ran cyffredinol o ymchwil a wnaed mewn mannau eraill ar effaith prentisiaethau.
- 3.27 Maes cyfle arall cysylltiedig yw'r **cydbwysedd yn nifer y prentisiaethau sy'n mynd i recriwtiaid newydd yn hytrach na chyflogeion presennol i gynyddu eu sgiliau**. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd bod dros hanner y prentisiaid eisoes yn gweithio i'w cyflogwr pan fyddant yn dechrau prentisiaeth. Cododd SAC y pryder, er bod hyn yn cynnig manteision i achredu sgiliau presennol, nid yw'n glir a ydynt (y gweithwyr presennol) yn dysgu sgiliau newydd. Fodd bynnag, dylid nodi ar y rhaglen Gradd-brentisiaeth, mae cydnabod dysgu blaenorol (RPL) yn ystyried gwybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau sydd gan Brentis Gradd eisoes.¹² Drwy'r broses hon, mae dyblygu posibl ac ailadrodd dysgu yn cael ei osgoi, gan alluogi gweithwyr presennol i gael eu datblygu i ddysgu sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad newydd. Ymhellach, mae Cylchlythyr CCAUC (2021) sy'n gwahodd sefydliadau AU i gyflwyno cynigion ar gyfer cyllid, yn datgan y gellid addasu cyllid ar i lawr yn ôl faint o fodiwlau nas cwblheir, prentisiaid yn gadael heb gwblhau neu os yw cyfanswm nifer y credydau ar gyfer y cwrs yn llai na 360 o gredydau oherwydd cydnabod dysgu blaenorol.

¹² Gweler [Llyfryn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru](#) i gael manylion pellach.

3.28 Cynigiai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fod angen cymorth i gynyddu cyflymder yr adolygiadau sector ar gymwysterau prentisiaethau er mwyn ateb y galw. Codwyd cwestiynau hefyd am **gydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau STEM**. Cynigiodd yr adroddiad fwy o gydweithio **ar raglenni i annog menywod i gyfranogi yn y sector gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a gweithgynhyrchu** i fynd i'r afael â'r anghyfartaledd.

3.29 Mae'r cyfle yn ymwneud â chydraddoldeb rhywiol yn cael ei adleisio yn adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Senedd Cymru (2018), a oedd yn adolygu gwaith Llywodraeth Cymru ar brentisiaethau yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen beilot. Mae'r adroddiad yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cynrychiolaeth well a thecach o blith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ac yn amlygu sut y mae gwaith i'w wneud i gynyddu cydraddoldeb rhywiol, yn ogystal â chynyddu ymgysylltiad pobl sydd ag anabledd a phobl ifanc. Dywed Senedd Cymru hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru osod targedau iaith Gymraeg ar gyfer addysg ôl-orfodol a phrentisiaethau.

Y Gymraeg

3.30 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn credu y bydd prentisiaethau yn cefnogi cyflawni'r nod hwn (gan felly gyd-fynd ag uchelgeisiau Strategaeth Cymraeg 2050 a Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru). Dylai prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog gefnogi cyfle di-dor i ddefnyddio'r Gymraeg a phontio o addysg statudol i'r gweithle ac i ddiwydiant ledled Cymru.

3.31 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ar gyfer prentisiaethau dwyieithog ym maes gofal plant, adeiladu ac amaethyddiaeth, lle mae'r Gymraeg yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac i gefnogi pobl i deimlo'n gyfforddus ynghylch cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhellach, mae cynllun i ehangu prentisiaethau dwyieithog mewn diwydiannau eraill er mwyn cefnogi ymhellach darged y Gymraeg ac maent yn cydnabod bod angen cofnodi a monitro prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog yn well er mwyn cefnogi deall a chymharu llawnach rhwng y cyfrwng dysgu a'r sgiliau iaith sydd ar gael i'w defnyddio yn y gweithle (Llywodraeth Cymru, 2018a).

- 3.32 Mewn ymateb i argymhellion gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (gweler rhan 1 yr adroddiad hwn), ac i gefnogi sefydliadau AU i ddatblygu dull cadarn o ymdrin â'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn eu rhaglenni gradd-brentisiaethau, mae CCAUC yn cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i rannu ei Gynllun Gweithredu Cymraeg 2050 gydag arweinwyr gradd-brentisiaeth ym mhob sefydliad AU. Mae hyn yn rhoi dull strategol o fynd ati i fodelu datblygu sgiliau ar gyfer darparwyr prentisiaethau, wedi'u cynllunio i gynyddu cyfraddau dilyniant, a chymorth ar gyfer datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn gymdeithasol, ac yn y gweithle. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â dull y brif raglen prentisiaethau.

Cynllunio'r Rhaglen

Blaenoriaethau Sectorau

- 3.33 Ynghyd â dymuniad i ddatblygu gradd-brentisiaethau, rhoddai polisi Llywodraeth Cymru (2017a) bwyslais ar ehangu prentisiaethau (ar bob lefel cymhwyster) mewn galwedigaethau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) a chynyddu'r nifer sy'n cofrestru ar y rhain.
- 3.34 Ar gyfer y gradd-brentisiaethau roedd ffocws penodol o fewn galwedigaethau STEM ar TG/Cyfrifiadura, Peirianeg, a Gweithgynhyrchu Uwch. Nodwyd y sectorau hyn (fel yr amlinellir yn rhan 1 yr adroddiad) gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i fod yn rhai lle ceir y prinder sgiliau mwyaf yn y galwedigaethau technegol a sgiliau uwch sy'n gyrru cynhyrchiant.
- 3.35 Er y nodwyd mai'r sectorau hyn oedd â'r angen mwyaf, dynion yn draddodiadol sydd wedi mynd iddynt yn bennaf. Yn wir, cyfeiriodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Cymru (2019) at ddata derbyn a ddangosai fod 10 gwaith mwy o ddynion na menywod wedi dechrau prentisiaethau mewn peirianeg yn 2017/18.
- 3.36 Deallir bod yr anghydbwysedd presennol rhwng y rhywiau yn y sectorau targed yn bryder i'r rheiny a oedd yn gysylltiedig â chynllunio'r rhaglen. Mae posibilrwydd y gallai targedu'r sectorau hyn danseilio'r gallu i ehangu mynediad iddynt a hyrwyddo cyfle cyfartal. Fodd bynnag, ac yn unol ag argymhellion adroddiad SAC, ceisiodd swyddogion polisi fynd ar drywydd dulliau gweithredu a fyddai'n annog menywod i gymryd rhan mewn pynciau STEM er mwyn mynd i'r afael â'r anghyfartaledd hwn.

Model Cyllido

- 3.37 Cafwyd cyfnod o ymgysylltu a thrafod gydag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys darparwyr prentisiaethau cyfredol, rhwydweithiau AB, a sefydliadau AU. Yn sgil y ffaith y byddai gradd-brentisiaethau yn gofyn am gymhwyster lefel gradd, sylweddolwyd mai sefydliadau AU (yng Nghymru) yn unig a allai eu dyfarnu a hynny wedyn wedi arwain at nodi cyllid grant i CCAUC i fod y llwybr mwyaf hyfyw ar gyfer y rhaglen.
- 3.38 Roedd risg ynghlwm â'r penderfyniad i gynnig cyllid grant i CCAUC i gynnal y rhaglen Gradd-brentisiaeth. Roedd pryderon (fel yr ailadroddwyd yn ymchwiliad diweddar Senedd Cymru) y gallai'r dull greu rhaniad yn y rhwydwaith prentisiaeth (gyda phrentisiaethau ar lefelau is yn cael eu darparu drwy rwydwaith dysgu seiliedig ar waith) a thanseilio dilyniant posibl i lwybrau dysgwyr (ac yn arbennig dilyniant drwy wahanol lefelau prentisiaethau). Yng nghylchlythyrau CCAUC yn gwahodd cynigion ar gyfer cyllid (CCAUC, 2018, 2019 a 2020)¹³ pwysleisiai CCAUC bwysigrwydd cydweithredu gyda cholegau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW). Mae'n bosibl hefyd fod annog cydweithio wedi lleihau'r risg o danseilio parhad yn llwybrau dysgwyr.
- 3.39 Roedd y sefydliadau addysg uwch a gymerodd ran yn yr ymarfer cwrmpasu yn croesawu'r model ariannu hwn yn gyffredinol ac yn teimlo mai dyma'r un mwyaf addas ar gyfer y rhaglen. Ymhellach, dywedodd rhanddeiliaid y teimlwyd, mewn trafodaethau answyddogol yn ystod cynllunio'r rhaglen, fod darparwyr DSW yn gysurus â'r model. Er hynny, nododd ymchwiliad y Senedd fod yna bryderon, yn bennaf o du Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) ac o Golegau Cymru. Disgrifiodd yr NTfW 'anfodlonrwydd' ymhlith ei aelodau gan nad oeddent yn glir pam yr oedd CCAUC wedi cael gweinyddu ei broses gymeradwyo ei hun ar gyfer darparwyr (drwy ddefnyddio model grant), gan y defnyddir proses gaffael gystadleuol ar gyfer prentisiaethau nad ydynt yn rhoi gradd (Senedd Cymru, 2020). Dengys y pryderon hyn pa mor bwysig fydd hi i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn yng ngham nesaf y gwerthusiad i sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu cofnodi.
- 3.40 Deallir bod pennu graddfa'r cyllid i'w neilltuo i'r rhaglen Gradd-brentisiaeth wedi bod yn broses heriol. Nid yw'r Ardoll Brentisiaethau a weinyddir ledled y DU wedi'i

¹³ [Mae cylchlythyrau CCAUC mewn perthynas â gradd-brentisiaethau.](#)

neilltuo'n benodol yn y dyraniad i Lywodraeth Cymru, ac roedd penderfynu ar raddfa'r buddsoddiad wedi'i gymhlethu gan ddiffyg tystiolaeth (gan ei bod yn rhaglen newydd) ynghylch y diddordeb ynddo a'r niferoedd posibl a fyddai am ymuno. Deellir bod y buddsoddiad o £20m yn cynrychioli tua 10–15 y cant o'r gyllideb brentisiaethau. Mae hwn yn ddyraniad cyfrannol o'r gyllideb i brentisiaethau sgiliau uwch sy'n debyg i'r hyn a ddyfarnwyd yng Ngogledd Iwerddon.

Strwythur Llywodraethu

- 3.41 Gellid bod dan yr argraff fod llywodraethu a chyfeiriad strategol y rhaglen Gradd-brentisiaeth yn gymhleth oherwydd y ffaith bod y rhaglen Brentisiaeth gyffredinol yn dod o fewn portffolio un Gweinidog (sef Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru), tra bod addysg uwch yn rhan o bortffolio gweinidog arall (sef y Gweinidog Addysg).¹⁴ Caiff y rhaglen Gradd-brentisiaeth ei marchnata fel prentisiaeth uwch a'i safleoli yn fodel sgiliau.
- 3.42 Mae rolau a chyfrifoldebau CCAUC a Llywodraeth Cymru wrth lywodraethu'r rhaglen Gradd-brentisiaeth ar adegau wedi cael eu disgrifio (drwy'r cyfweiliadau cwmpasu) i fod 'braidd yn aneglur' ac 'ac ychydig yn ddryslyd'. Wedi dweud hynny, ystyriwyd yn gyffredinol bod y berthynas yn gryf ac yn llwyddiant allweddol i'r rhaglen. At hynny, mae eglurder yn y ffaith mai Llywodraeth Cymru sy'n gyffredinol atebol am y rhaglen ac yn cymryd y rôl arweiniol wrth bennu cyfeiriad polisi, dewis y sectorau blaenoriaeth, a'r dyraniad cyllidebol ar gyfer y rhaglen.
- 3.43 O safbwynt Llywodraeth Cymru a CCAUC, CCAUC sy'n arwain ar ddyrannu cyllid (sef arfarnu cynigion sefydliadau AU), manyleb y rhaglen, sicrhau ansawdd, a gweithio (gyda sefydliadau AU a chyflogwyr) ar y broses recriwtio a derbyn.
- 3.44 Mae'r elfennau llywodraethu lle tybir bod cyd-gyfrifoldeb gan CCAUC a Llywodraeth Cymru yn cynnwys marchnata ac ymgysylltu â rhanddeiliaid (gan gynnwys Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Gyrfa Cymru, a'r sector AB), er bod y rhain yn cael eu harwain fwyfwy gan CCAUC.

¹⁴ Yn dilyn etholiadau Senedd Cymru ym mis Mai 2021, mae'r rhaniad hwn rhwng y ddau Bortffolio Gweinidogol wedi parhau.

Rhoi ar waith

Fframweithiau

- 3.45 Roedd datblygu fframweithiau'r gradd-brentisiaethau yn elfen angenrheidiol a hanfodol o ddylunio a gweithredu'r rhaglen Gradd-brentisiaeth. Roedd y broses wedi galluogi cyflogwyr i fod yn rhan o ddylunio'r fframwaith ac wedi helpu i hwyluso sgysiau gyda sefydliadau AU. Yn ôl yr hyn a ddeëllir, roedd awydd i ddysgu o'r dull gweithredu yn Lloegr, lle mae safonau prentisiaeth yn canolbwyntio ar ddatganiadau sgiliau (yn hytrach nag ar gymwysterau penodol) ac, felly, yn rhai y byddai'r cyflogwr a'r dysgwr yn debygol o fedru uniaethu mwy â nhw. Fodd bynnag, teimlai cynrychiolydd o sefydliad AU fod y fframweithiau wedi dod yn rhyw fath o 'restr ddymuniadau' yr holl gyflogwyr oedd wedi bod yn rhan, gyda nifer uwch o ddeilliannau dysgu na'r rhai sy'n gysylltiedig â gradd draddodiadol:

'[Rwy'n] credu ei fod yn cyfateb i rywbeth fel 200 deiliant dysgu, o'i gymharu â gradd arferol (sy'n 30–40). Roedd rhai yn benodol iawn – [e.e.] “rhaid i chi wybod hyn”. Roedd eraill yn amwys iawn ac yn dibynnu ar sut y byddech yn eu dehongli, gallai fod yn addysgu 30 munud neu'n astudiaeth blwyddyn gyfan.' (Cynrychiolydd sefydliad AU)

- 3.46 Yn gynnar yn y rhaglen Gradd-brentisiaeth comisiynodd Llywodraeth Cymru y ddau Gyngor Sgiliau Sector (SSC) perthnasol i ddatblygu'r fframweithiau. Cynlluniwyd proses bwrpasol, gyda chyllid ychwanegol. Roedd y broses yn cynnwys dadansoddiad manylach ar anghenion a mwy o ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill o'i chymharu â phrosesau blaenorol. Datblygwyd y fframwaith Digidol o fewn yr amserlenni.
- 3.47 Roedd oedi sylweddol wrth gynllunio'r fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch, mater yr oedd CCAUC yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad diweddar yn ei briodoli i lai o gapasiti yn un o'r Cynghorau Sgiliau Sector i ymgymryd â'r rôl hon. Yn y gorffennol, byddid fel rheol wedi comisiynu'r Cyngor i ddatblygu'r fframweithiau, ond ers colli eu rôl yn systemau prentisiaeth Lloegr mae eu gallu wedi dirywio'n ddifrifol. Arweiniodd yr oedi at gomisiynu ymgynghorydd allanol i weithio gyda'r Cyngor i gwblhau'r gwaith.

Ymgysylltu â sefydliadau AU

- 3.48 Cyhoeddodd CCAUC gylchlythyr ar gyfer cynigion i flwyddyn gyntaf y rhaglen Gradd-brentisiaeth ar gyfer y Fframwaith Digidol ar 29^{ain} Ebrill 2018 (a'r dyddiad cau i gyflwyno'r cynigion yn 23^{ain} Gorffennaf 2018). Roedd dyraniad o £3 miliwn ar gyfer Blwyddyn 1 y rhaglen. Adolygwyd y cynigion gan grŵp gorchwyl a gorffen a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o CCAUC, Llywodraeth Cymru, a Diwydiant Cymru, gyda chadarnhad o'r cyllid ar gyfer pob sefydliad AU erbyn 6^{ed} Awst 2018.
- 3.49 Y cyfanswm a ddyrannwyd ar gyfer cyllido gradd-brentisiaethau ar draws y ddau fframwaith yn 2019/20 oedd £5m. Gosodwyd y dyddiad olaf o 26^{ain} Ebrill 2019 i dderbyn cynigion, gyda dyraniad y niferoedd cysylltiedig yn amodol ar dderbyn y cymhwyster i'r fframwaith perthnasol erbyn 24^{ain} Mai 2019. Cynigiwyd amserlenni tebyg ar gyfer cyflwyno yn 2020, gyda £12m wedi'i gadarnhau i'w ddyrannu ar gyfer 2020/21.¹⁵
- 3.50 Roedd pob un namyn un o'r sefydliadau a ariannir gan CCAUC (h.y. prifysgol Aberystwyth) wedi ymateb i'r cais am gynigion i gyflenwi'r rhaglen Gradd-brentisiaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau AU a ymatebodd i'r cyfle eisoes yn weithredol yn y sectorau hyn ac yn meddu eisoes ar berthynas â cholegau AB drwy drefniadau masnachfaint.
- 3.51 I Brifysgol Aberystwyth roedd terfyn amser y buddsoddiad yn y rhaglen (buddsoddiad cychwynnol o dair blynedd) yn un ffactor dros eu hamharodrwydd i ymgysylltu. Roedd pryder na fyddai sicrwydd parhad i'r rhaglen ac roedd amharodrwydd i fuddsoddi yn y seilwaith angenrheidiol oherwydd ansicrwydd o'r fath.
- 3.52 Disgrifiodd sefydliadau AU yr her o gael dylanwad o fewn eu sefydliad y tu hwnt i'w tîm craidd i symud tuag at gyflwyno gradd-brentisiaethau. Ymhellach, roedd rhywfaint o betruster ymysg sefydliadau AU o ran i ba raddau yr oeddent yn buddsoddi mewn seilwaith i gyflenwi gradd-brentisiaethau, gan fod sefydliadau AU wedi dehongli'r buddsoddiad i fod yn beilot heb unrhyw sicrwydd o fuddsoddiad parhaus. Yn wir, teimlai rhai sefydliadau AU fod gradd-brentisiaethau wedi aros braidd yn ymylol i'w gweithrediad craidd o ganlyniad. Dywedir bod y ffaith fod

¹⁵ [CCAUC \(2020\) Gradd-brentisiaethau yng Nghymru a Chynigion ar gyfer Cyllid 2020/21.](#)

lefelau cyllid ar gyfer y rhaglen yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol wedi cynyddu'r petrusrwydd hwn ymhlith sefydliadau AU:

'Mae gradd-brentisiaethau wedi byw "ar yr ochr" oherwydd diffyg parhad [...] bob blwyddyn mae angen i ni sicrhau cymeradwyaeth i redeg o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r brifysgol yn pwysu a mesur arallgyfeirio i leihau ar y risgiau sy'n codi, ac mae hwn yn gwrs a fyddai'n ychwanegu at yr arallgyfeirio hwnnw ond mae'n cael ei wrthbwyso yn erbyn natur dymhorol y rhaglen. Felly, mae mewn limbo [ym marn y brifysgol] – rhaglen barhaol ond heb sicrwydd iddi.' (Cynrychiolydd sefydliad AU)

- 3.53 Wedi dweud hynny, ystyriai sefydliadau AU y rhaglen i fod yn gyfle i atgyfnerthu ymgysylltiad â chyflogwyr a chryfhau eu presenoldeb a'u rôl yn eu heconomi leol. Fodd bynnag, her allweddol i ymgysylltu â'r rhaglen, fel y nodwyd ledled pob sefydliad AU, oedd yr her yn ymwneud ag amseru cyhoeddiadau ariannu a'r amserlen fer i gyflwyno cynnig mewn ymateb i'r cyhoeddiadau hyn. Cwtogwyd yn enwedig ar yr amserlen ar gyfer y fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch, gan fod oedi wrth gyhoeddi'r fframwaith yn 2019 wedi gohirio'r alwad am gynigion, ac yna'r arfarnu ar y rheiny wedi digwydd ym mis Gorffennaf, er bod y rhaglen i fod i ddechrau ym mis Medi.

Hyrwyddo ac Ymgysylltu

Llywodraeth Cymru a CCAUC

- 3.54 Cyn y gwerthusiad, cyfyngedig oedd y gwaith marchnata a hyrwyddo ar y rhaglen Gradd-brentisiaeth a wnaed gan Lywodraeth Cymru neu CCAUC. Yr oedd yr hyrwyddo cyfyngedig yn adlewyrchu pryderon y gallai greu lefelau o ddiddordeb ac ymgysylltiad y tu hwnt i'r hyn y gellid ei gyflawni drwy'r gyllideb a oedd ar gael. Fodd bynnag, ar adeg yr ymgynghoriad roedd cynlluniau ar gyfer rhywfaint o farchnata, er nad oedd y negeseuon a'r dull gweithredu wedi'u cwblhau eto. Mae'r bwriad i gyflwyno gweithgarwch marchnata wedi digwydd mewn ymateb i bryderon ynghylch mwy o ddileu swyddi a rhoi staff ar ffyrlo yn ogystal â gostyngiad cysylltiedig yn nifer y cyflogwyr sydd am gofrestru staff mewn gradd-brentisiaeth.

- 3.55 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn dadansoddi data¹⁶ i amcangyfrif effaith y pandemig a'r dirywiad economaidd cysylltiedig ar brentisiaid. Er bod y dadansoddiad yn cwmpasu prentisiaethau sylfaen i rai uwch (ac felly ddim yn cynnwys gradd-brentisiaethau), y mae, serch hynny, yn rhoi rhywfaint o ddarlun o effaith y pandemig ar gwblhau prentisiaethau. Dengys y dadansoddiad diweddaraf¹⁷ bod tua 0.5 y cant o brentisiaethau wedi dod i ben oherwydd dileu swydd, tra bod 4.4 y cant o brentisiaid ar ffyrlo yn rhannol neu'n llawn, ar Ionawr 2021. Mae hyn yn cymharu â dechrau mis Mai 2020 (pan oedd cyfran y prentisiaid ar ffyrlo wedi cyrraedd 20.2 y cant). Awgryma'r data hwn effaith gyfyngedig (hyd yma) ar gwblhau prentisiaethau presennol. Ymhellach, mae gradd-brentisiaethau, gan eu bod yn para am gyfnod hirach, yn gofyn am ymrwymiad mwy estynedig gan y cyflogwr a'r prentis ac, felly, yn llai tebygol o gael eu heffeithio gan faterion tymor byr sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Nid yw gradd-brentisiaethau ar gael ychwaith mewn sectorau yng Nghymru sydd wedi bod yn arbennig o agored i effeithiau economaidd y pandemig. Gyda'i gilydd, mae hyn yn awgrymu y gallai problemau dileu swyddi a ffyrlo fod yn llai cyffredin ymhlith y rheiny sy'n astudio gradd-brentisiaethau nag ymhlith y rhai sy'n astudio prentisiaethau eraill.
- 3.56 Bu heriau hefyd mewn perthynas â'r derminoleg sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ac, yn enwedig, a ddylid cyfeirio at y rhaglen fel 'peilot' neu a yw'r rhaglen yn ei 'chlyfnod cychwynnol'. Awgryma'r defnydd o'r term 'peilot' fod hwn yn rhyw fath o dreial, gan ddylanwadu ar yr argraff allanol am debygolrwydd buddsoddiad parhaus. Er na chyfeirir yn eang at y rhaglen fel cynllun peilot, mae rhai rhanddeiliaid wedi'i dehongli felly. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae'r diffyg tystiolaeth gysylltiedig am ymrwymiad parhaus i fuddsoddi y tu hwnt i'r tair blynedd cychwynnol wedi dylanwadu ar sut mae rhai rhanddeiliaid (yn enwedig sefydliadau AU a hefyd, yn ôl a ddeëllir, cyflogwyr) wedi ymateb i'r cyfle.

¹⁶ Gwybodaeth reoli gan ddarparwyr prentisiaethau a chofnodion o'r Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2021) [Prentisiaid a roddwyd ar ffyrlo neu a ddiswyddwyd yn ystod pandemig coronafeirws \(COVID-19\): hyd at 8 Ionawr 2021](#), cyhoeddwyd 19^{eg} Ionawr 2021.

Sefydliadau Addysg Uwch

- 3.57 Mae'r graddau y mae sefydliadau AU (a'u colegau AB a darparwyr DSW partner) wedi hyrwyddo'r rhaglen yn uniongyrchol i gyflogwyr wedi'i bennu rywfaint gan eu profiad blaenorol o ymwneud â chyflogwyr a rhwydweithiau cyflogwyr o fewn y sectorau hyn. Pan fo rhwydweithiau eisoes ar waith, tueddai sefydliadau AU i hyrwyddo'r rhaglen yn uniongyrchol i'r cyflogwyr hynny. Ymhellach, dibynnai sefydliadau AU i raddau helaeth ar golegau AB a darparwyr DSW i hyrwyddo'r rhaglen i'w rhwydweithiau cyflogwyr. Mae rhai sefydliadau AU yn darparu gradd-brentisiaethau yn Lloegr, gydag aelodau o'u staff wedi bod yn rhan o grwpiau arloesol i ddatblygu safonau gradd-brentisiaethau (ochr yn ochr â chyflogwyr), er enghraifft. Bu'r cysylltiadau hyn a oedd eisoes yn bodoli hefyd yn ddefnyddiol wrth hyrwyddo'r rhaglen i gyflogwyr sydd â phresenoldeb yng Nghymru.
- 3.58 Heb unrhyw sicrwydd o gyllid i'r rhaglen cyn y cyhoeddiadau ariannu ac amserlen fer iawn wedyn i ymgysylltu â chyflogwyr a chofrestru prentisiaid, roedd sefydliadau AU a'u partneriaid wedi'u cyfyngu yn eu gallu i ddenu cyflogwyr newydd i'r rhaglen:
- 'Allwn ni ddim mynd allan a gwerthu gradd-brentisiaethau i gwmnïau heb gael sicrwydd. Dyna yw'r broblem. Rydym yn gwneud cais am leoedd ac mae'r cyfan wedi bod yn rhy hwyr – gwneud cais ym mis Ebrill, peidio â chael gwybod tan fis Mehefin ar gyfer dechrau ym mis Medi.'* (Cynrychiolydd AU)
- 3.59 Mae hyn wedi golygu bod yr ymgysylltu â chyflogwyr wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i'r rhai lle roedd perthynas eisoes yn bodoli rhwng y cyflogwr a'r sefydliad AU/coleg AB. Yn aml mae'r rhain yn gyflogwyr mawr (mwy na 250 o weithwyr), lle mae graddfa'r anghenion hyfforddi (o ran nifer y gweithwyr) yn gwarantu perthynas sefydledig a pharhaus.
- 3.60 Mae'r rhaglen wedi ceisio hyrwyddo cydlynid rhanbarthol, sef bod gradd-brentisiaethau yn cael eu cynllunio gan sefydliadau AU mewn ymateb i ofynion cyflogwyr yn eu rhanbarth. Mewn rhai ardaloedd, ailddatganodd sefydliadau AU eu cysylltiadau â cholegau AB a darparwyr DSW wrth nodi rhwydweithiau ac ymateb i'w hanghenion. Fodd bynnag, mae nifer o achosion o gyflogwyr â pherthynas eisoes yn bodoli â sefydliadau AU yng Nghymru mewn rhanbarthau gwahanol i'r

rhai lle maent hwy eu hunain wedi'u lleoli. Yn ogystal, mae gan rai o'r busnesau mwyaf (e.e. Airbus) berthynas â sawl sefydliad AU.

- 3.61 Mae ceisio cydlyniad rhanbarthol yn alinio â'r agenda ranbartholi sydd yn Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae'r cynllun yn disgrifio dyhead am lais rhanbarthol cryfach drwy fodel datblygu economaidd sy'n canolbwyntio'n rhanbarthol. Y gobaith yw y byddai mabwysiadu'r model hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb yn fwy effeithiol i heriau a chyfleoedd gwahanol pob un o'r rhanbarthau.
- 3.62 Mae'r dymuniad i gael cydlyniad rhanbarthol yng nghyd-destun y rhaglen Gradd-brentisiaeth yn rhoi cyfle i ymateb i'r casgliad unigryw o amgylchiadau economaidd y mae cyflogwyr ym mhob rhanbarth yn eu hwynebu. Yn ogystal, roedd yn ymdrech i osgoi creu hinsawdd lle oedd prifysgolion mewn gwahanol ardaloedd yn cystadlu am brentisiaid o'r un cyflogwr. Wrth fynd ar drywydd cydlyniad rhanbarthol codwyd pryderon y gallai'r nifer cyfyngedig o ddarparwyr olygu y byddai'n rhaid i gyflogwr chwilio am ddarparwyr o ranbarthau eraill. Ymhellach, roedd ymdeimlad bod sefydliadau AU eisiau bod yn ymatebol i'r galw gan gyflogwyr a gallu bodloni'r galw hwnnw, waeth beth fo'r lleoliad, a bod rhoi pwyslais ar gyflogwyr yn lleol yn rhoi'r sefydliadau AU hynny nad oes busnesau canolig a mawr yn eu hardal o dan anfantais. Anogwyd sefydliadau AU felly yn eu cynigion i ddangos ymhle yr oedd partneriaethau â chyflogwyr y tu allan i'w rhanbarth yn bodoli ac i roi rhesymau yn cyfiawnhau hyn.
- 3.63 Her arall sydd wedi dod i'r amlwg yw bod cyflogwyr yn gweithredu ledled Cymru a Lloegr ac, felly, yn cael profiad gwahanol iawn o radd-brentisiaethau ym mhob gwlad. Ymhellach, pan fo cyflogwyr yn talu'r ardoll, gall fod disgwyliad gwahanol ar gyfer y rhaglen oherwydd dylanwad eu profiad neu ymwybyddiaeth o'r cynnig yn Lloegr. Bydd archwilio effaith y profiad hwn ar gyflogwyr yn faes ymchwilio allweddol yng ngham nesaf y gwerthusiad.

Modelau cyflenwi sefydliadau AU

- 3.64 Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau AU eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW) i ryw raddau cyn lansio'r rhaglen Gradd-brentisiaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r rhaglen wedi arwain at gryfhau cychwynnol ar y berthynas honno, yn enwedig o safbwynt gweithredol,

tra bod dau sefydliad AU wedi disgrifio'r partneriaethau ag AB fel cynghrair strategol. Mae colegau AB fel arfer wedi bod yn ymwneud yn helaeth ag ymgysylltu â chyflogwyr ac â'r elfennau DSW gan gynnwys ymweliadau gwaith (sy'n digwydd fel arfer bob wyth wythnos). Mewn rhai ardaloedd, adroddai sefydliadau AU fod colegau AB yn cyflenwi'r flwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y radd-brentisiaeth cyn i'r brifysgol wedyn gyflenwi'r dysgu yng nghanau olaf y radd-brentisiaeth.

- 3.65 Mae rhai enghreifftiau prin o sefydlu llwybrau dysgwyr, yn enwedig yn y sector gweithgynhyrchu uwch a pheirianeg. Soniodd sefydliadau AU am ddarparwyr DSW yn cynnig llwybrau dilyniant o brentisiaethau presennol ar lefel 3, er enghraifft, neu o HNDs/HNCs. At hynny, cafwyd enghreifftiau o ddarpar ymgeiswyr i brentisiaeth lefel 4 neu 5, pan na chafodd y cwrs hwnnw wedyn ei gynnal, yn cael eu cyfeirio at y radd-brentisiaeth yn y maes hwnnw.
- 3.66 Yn y sector digidol, mae wedi bod yn fwy heriol sefydlu llwybrau dysgwyr, gydag un sefydliad AU yn dweud mai ychydig o ddarpariaeth cyfrifiadura (er enghraifft) oedd ar gael ymhlith colegau AB yn eu rhanbarth. (Edrychir yng nghan nesaf y gwerthusiad ar lwybrau dysgwyr o safbwynt y cyfranogwr.) Mae hyn, yn ôl a ddeallir, wedi creu heriau wrth recriwtio i'r rhaglen:

'Un o'r anawsterau rydym wedi'i gael ynghylch ymgysylltu â phartneriaid yw'r diffyg darpariaeth ar y lefelau is, sy'n golygu bod y llinell fwydo yn llai. Mae ansawdd yr hyn sydd ar gael yn gymysg ac efallai na fyddant yn trosglwyddo'n rhwydd i'n [gradd-brentisiaeth].'
(Cynrychiolydd sefydliad AU)

Cynnydd hyd yma

Cynnydd o ran Recriwtio

- 3.67 Mae Tabl 3.1 (isod) yn cyflwyno data a gasglwyd gan CCAUC sy'n amlinellu'r cynnydd o ran recriwtio prentisiaid i bob fframwaith. Roedd yr oedi a oedd yn gysylltiedig â chyhoeddi'r fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch wedi golygu bod cyflawni'r fframwaith hwn wedi dechrau ym mlwyddyn academiaidd 2019/20, flwyddyn ar ôl dechrau'r fframwaith Digidol.

- 3.68 Dengys y tabl fod y recriwtio ar gyfer y ddau fframwaith wedi bod yn llai na'r lefelau a bennwyd (sef nifer y lleoedd gradd-brentisiaeth a ddyrannwyd mewn ymateb i'r cynigion a dderbyniwyd). O safbwynt sefydliad AU, adroddwyd mai'r prif resymau y tu ôl i'r diffygion hyn oedd y cyhoeddiadau ariannu blynyddol a'r amserlenni tynn a oedd yn gysylltiedig â'r rhain. Roedd sefydliadau AU a cholegau AB yn ei chael hi'n anodd cael cyflogwyr i gofrestru staff ar gwrs a fyddai'n para am sawl blwyddyn heb sicrwydd o gyllid parhaus.
- 3.69 O ran y Fframwaith Digidol (lle mae'r ffigurau a adroddwyd ar gyfer 2019/20 yn gronol gyda'r rhai a gofnodwyd ar gyfer 2018/19) mae graddau'r diffyg yn fwy o flwyddyn academaidd 2019/20 na'r hyn a welwyd yn 2018/19, gan arwain at ddiffyg cyffredinol o 47 y cant.

Tabl 3.1: Recriwtio i Radd-brentisiaeth 2018/19 a 2019/20¹⁸

Fframwaith	2018/19			2019/20 (Cronol)		
	Dyrannwyd	Recriwtiwyd	Gwahaniaeth	Dyrannwyd	Recriwtiwyd	Gwahaniaeth
Digidol	210	155	-26%	465	245	-47%
Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch				275	170	-38%

- 3.70 Mae Tabl 3.2 (isod) yn rhoi'r diweddaraf am y niferoedd recriwtio ar gyfer misoedd cyntaf blwyddyn academaidd 2020/21. Mae'n dangos bod 215 o brentisiaid wedi aros ar y rhaglen (o'r flwyddyn flaenorol) yn y fframwaith Digidol (o'i gymharu â 245 a oedd yn y rhaglen yn y flwyddyn academaidd flaenorol), gyda 105 arall wedi'u recriwtio i'r rhaglen. Mae hyn yn cymharu â dyraniad o 710 o brentisiaid ar gyfer y fframwaith hwnnw. O ran y sector Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch, roedd 140 o'r 170 yn parhau yn y rhaglen (gan recriwtio 195 prentis arall).

¹⁸ Talgrynnwyd yr holl rifau i fyny neu i lawr i'r lluosrif agosaf i 5. Mae unrhyw rif sy'n is na 2.5 wedi'i dalgrynnu i 0. Caiff haneri eu talgrynnu i fyny (e.e. caiff 2.5 ei dalgrynnu i 5).

Tabl 3.2: Gradd-brentisiaethau – Dyraniad a Recriwtio 2020/21¹⁹

Fframwaith	Dyrannwyd	Recriwtiwyd			% Gwahaniaeth
	Yn newydd ac yn parhau	Cyfnod Monitro 1			
	2020/21	(01/08/2020–15/11/2020)			
		Yn parhau	Yn newydd	Cyfan- swm	
Digidol	710	215	105	320	-55%
Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch	450	140	195	340	-24%
Cyfanswm	1160	355	300	660	-43%

Ffynhonnell: CCAUC

Proffiliau Myfyrwyr

- 3.71 Mae Tabl 3.3 (isod) yn rhoi trosolwg o darddiad gradd-brentisiaid pan wyddys hynny ac mae'n dangos bod y mwyafrif llethol o'r rhai a recriwtiwyd i'r rhaglen eisoes wedi'u cyflogi gan y cyflogwr a gymerai ran yn y rhaglen, tra mai dim ond naw y cant o'r rhai a recriwtiwyd oedd yn gyflogeion newydd i gyflogwyr. Unwaith eto, priodolai sefydliadau AU hyn i'r amserlenni a oedd yn gysylltiedig â chyhoeddiadau ariannu:

‘Un o’n rhwystredigaethau yw bod y rhan fwyaf o’n dysgwyr yn bobl sy’n uwchsgilio [gweithwyr presennol]. Yr eithriad yw Airbus. I gyflogwyr dderbyn y [gradd-brentisiaid] hyn fel rolau newydd, bydd hynny’n gofyn am rywfaint o adnoddau ychwanegol, parhaus a hefyd ymestyn yr amserlenni.’ (Cynrychiolydd sefydliad AU)

- 3.72 Mae'r proffiliau hyn yn gwrthgyferbynnu â'r rhai a adroddwyd yn Lloegr, lle cyfeiriodd Universities UK (2019) at feirniadaethau ynghylch lefel y cyfleoedd a oedd ar gael i weithwyr presennol gael mynediad at radd-brentisiaid o'i gymharu â phrentisiaid iau sy'n mynd i mewn iddynt yn syth o'r ysgol neu'r coleg.

¹⁹ Talgrynnwyd yr holl rifau i fyny neu i lawr i'r lluosrif agosaf i 5. Mae unrhyw rif sy'n is na 2.5 wedi'i dalgrynnu i 0. Caiff haneri eu talgrynnu i fyny (e.e. caiff 2.5 ei dalgrynnu i 5).

Tabl 3.3: Gradd-brentisiaethau – Cyflogeion Presennol a Newydd 2020/21²⁰

Fframwaith	Cyflogeion a Recriwtiwyd: Cyfnod Monitro 1 (01/08/2020–15/11/2020)				Cyfanswm
	Cyflogeion presennol		Cyflogeion newydd		
Digidol	260	84%	50	16%	310
Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch	315	98%	5	2%	320
Cyfanswm	575	91%	55	9%	630

Ffynhonnell: CCAUC

- 3.73 O'r rhai sydd newydd gael eu recriwtio neu'n parhau yn y rhaglen Gradd-brentisiaeth (hyd at 15^{fed} Mawrth 2021) roedd 180 (27 y cant) ohonynt yn siarad Cymraeg, tra bod 20 y cant yn iau na 21 oed. Roedd 14 y cant yn cofnodi eu hunain yn fenywod (95/660)²¹, sy'n cymharu â 16 y cant o fyfyrwagedd wedi cofrestru ar raddau cyfrifiadureg neu beirianeg a thechnoleg.²² Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â safbwyntiau rhai rhanddeiliaid a oedd wedi awgrymu bod gorgynrychiolaeth o fenywod yn y rhaglen Gradd-brentisiaeth o'i gymharu â'r nifer sy'n astudio graddau prifysgol yn y sectorau hyn.
- 3.74 Mae'r safbwyntiau cyferbyniol yn dangos yr angen am ddadansoddiad manylach o wybodaeth reoli a data meincnodi cysylltiedig yng nghan nesaf y gwerthusiad er mwyn pennu'r cynnydd a wnaed ar gynyddu cynrychiolaeth menywod yn y sectorau hyn. Mae CCAUC hefyd wedi nodi sefydlu data meincnodi gan gynnwys cymariaethau â phrentisiaethau a rhaglenni israddedig; fodd bynnag, mae'r dangosyddion perfformiad diweddaraf sydd ar gael gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn rhai ar gyfer 2019/20 a dim ond newydd gael eu rhyddhau y mae'r rhain. Felly, tra bod meincnodi perfformiad yn parhau i fod yn un o nodau allweddol y gwerthusiad, nid yw'n glir ar hyn o bryd a fyddai hynny'n ymarferol

²⁰ Talgrynnwyd yr holl rifau i fyny neu i lawr i'r lluosrif agosaf i 5. Mae unrhyw rif sy'n is na 2.5 wedi'i dalgrynnu i 0. Caiff haneri eu talgrynnu i fyny (e.e. caiff 2.5 ei dalgrynnu i 5).

²¹ Dadansoddiad CCAUC o ddata a gasglwyd gan ddarparwyr AU ar gyfer myfyrwyr yn dechrau yn 2019/20 a 2020/21

²² Dadansoddiad CCAUC o gofnodion myfyrwyr HESA ar gyfer myfyrwyr yn dechrau 2018/19 a 2019/20.

bosibl yn y pen draw o fewn yr amserlen bresennol ar gyfer y gwerthusiad oherwydd y bwlch amser yn y data sydd ar gael.

Tabl 3.4: Gradd-brentisiaethau – Nodweddion Gwarchodedig 2020/21

Statws siarad Cymraeg		Oedran		Rhyw		
Siarad Cymraeg	Ddim yn siarad Cymraeg	Dan 21 oed	21 oed neu hŷn	Dyn	Menyw	Arall
180	475	130	530	565	95	0

- 3.75 Yn Nhabl 3.5 isod cyflwynir tystiolaeth bellach o nodweddion gradd-brentisiaid. Dengys y data fod wyth y cant o'r cyfranogwyr yn y gradd-brentisiaethau yn 2020/21 wedi datgan anabledd (50/660) o'i gymharu â 15 y cant o fyfyrwyr a oedd wedi cofrestru ar radd gyntaf mewn peirianeg a thechnoleg neu gyfrifiadura. Disgrifiodd cyfanswm o 95 y cant o'r rhai a recriwtiwyd eu hunain i fod yn wyn o ran ethnigrwydd.

Tabl 3.5: Gradd-brentisiaethau – Nodweddion Gwarchodedig 2020/21

Anabledd		Ethnigrwydd		
Anabledd wedi'i ddatgan	Dim anabledd hysbys	Gwyn	Grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	Ddim yn hysbys
50	610	630	20	10

Ffynhonnell: CCAUC

- 3.76 Mae cipolwg ychwanegol ar broffiliau myfyrwyr ar gael drwy HESA ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Dadansoddwyd y data hwn gan CCAUC, a nodwyd er bod gan 24 y cant o'r niferoedd a dderbyniwyd yn 2018/19 gymwysterau blaenorol ar lefel gradd neu ôl-raddedig, roedd hwn wedi gostwng i 15 y cant yn 2019/20.²³ Mae hyn yn cymharu â 37 y cant o ddysgwyr mewn gradd-brentisiaethau lefel 6 yn Lloegr (Wavehill, 2019). Awgryma hyn felly fod y rhaglen yng Nghymru wedi gallu ehangu

²³ Fodd bynnag, dylid nodi, at ddibenion ariannu, i fod yn gymwys rhaid i gymwysterau blaenorol ar lefel 6 ac uwch fod mewn maes rhaglen gwahanol.

cyfranogiad yn well mewn gradd-brentisiaethau i'r rhai nad ydynt eto wedi ennill cymwysterau ar y lefel hon.

- 3.77 Mae dadansoddi data HESA hefyd yn dangos bod 18 y cant o radd-brentisiaid yn 2018/19 ac yn 2019/20 yn byw yn un o 20 y cant uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru [MALID]). Mae hyn yn cymharu â 21 y cant o fyfyrwyr yng Nghymru ar raddau cyntaf mewn Peirianeg a Thechnoleg Cyfrifiadura (HESA, 2021). Fodd bynnag, mae 17 y cant o radd-brentisiaid yn dod o gymdogaethau cyfranogiad isel o'i gymharu â 15 y cant o fyfyrwyr yn gwneud eu graddau cyntaf. I'w nodi'n arbennig hefyd mae'r gwahaniaeth yng nghyfran rhiant gradd-brentisiaid heb gymwysterau AU. Ymysg y gradd-brentisiaid, roedd rhieni dros 60 y cant ohonynt heb unrhyw gymwysterau AU tra ymhlith y rhai sy'n gwneud graddau cyntaf mewn peirianeg a thechnoleg neu gyfrifiadura gostyngai'r ffigur hwn i 42 y cant.

Cyflogwyr

- 3.78 Yn olaf, mae CCAUC wedi cynnal dadansoddiad o natur y cyflogwyr sy'n ymgysylltu â'r rhaglen Gradd-brentisiaeth. Dengys Tabl 3.6 fod pedwar o bob 10 cyflogwr sy'n ymwneud â'r rhaglen yn Fusnesau Bach a Chanolig eu Maint (BBaCh) sy'n cyflogi llai na 250 o bobl. Mae'r cyflogwyr hynny sy'n ymgysylltu â'r fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch fymryn yn fwy tebygol o fod yn BBaCh na'r rhai sy'n ymwneud â'r fframwaith Digidol. Fel yr amlinellwyd eisoes yn yr adroddiad, dywedodd sefydliadau AU fod yr amserlenni a oedd yn gysylltiedig â dyfarnu cyllid wedi bod yn ffactor allweddol yn eu gallu i ennyn diddordeb BBaChau yn y rhaglen:

'Oherwydd fod gennym eisoes hanes gyda chyflogwyr eang, mae hi wedi bod yn anoddach i BBaChau ymwneud â ni oherwydd amserlenni cynllunio'r gweithlu – mae'r cyflogwyr mwy o faint wedi gweld y cyfle i wneud hynny ac mae ganddynt yr adnoddau i gydweithio.' (Cynrychiolydd sefydliad AU)

Tabl 3.6: Gradd-brentisiaethau – Cyflogwyr

Fframwaith	Cyflogwyr a Recriwtiwyd: Cyfnod Monitro 1 (01/08/2020–15/11/2020)				Cyfanswm
	BBaCh		Ddim yn BBaCh		
Digidol	35	37%	60	63%	95
Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch	45	43%	60	57%	105
Cyfanswm	85	41%	120	59%	205

Effaith COVID-19

- 3.79 Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at sefydliadau AU yn symud llawer o'u darpariaeth i fod ar-lein er mwyn galluogi dysgu o bell. Pan fabwysiadwyd dulliau cyflenwi cyfunol (h.y. cymysgedd o addysgu ar-lein ac ar y campws), addaswyd amseriad y darlithoedd ac yn aml eu cywasgu i ddiwrnod penodol bob wythnos i gadw at gyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol.
- 3.80 Wrth bwysu a mesur yr ymatebion ledled y sefydliadau AU, ymddengys bod y newid hwn wedi effeithio fwyaf ar radd-brentisiaethau yn y sectorau Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch ac, yn enwedig, lle gallai fod angen defnyddio offer arbenigol.
- 3.81 Ymhlith y dysgwyr deallir bod ymgorffori dysgu yn y gweithle wedi bod yn heriol, yn enwedig pan oedd rhaid gweithio gartref. Ymhellach, bu pryderon ynghylch dysgwyr yn dioddef o unigrwydd o ganlyniad i'r newid i ddysgu a gweithio o bell.
- 3.82 Mae effaith y pandemig ar y galw am radd-brentisiaethau yn llai clir. Yn y sector digidol, mae rhai sefydliadau AU yn adrodd am gynnydd yn y galw, wedi'i ysgogi efallai gan gyfuniad o fwyfwy o ddefnydd ar dechnoleg ar-lein ac amlygrwydd modelu ystadegol a dadansoddi data mawr sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Yn fwy cyffredinol, dywed sefydliadau AU fod pobl yn sôn wrth eraill am radd-brentisiaethau a hynny wedi arwain at fwy o alw amdanynt, naill ai gan gydweithwyr mewn cyflogwyr sydd wedi ymgysylltu eisoes neu gan gyflogwyr eraill o fewn eu rhwydwaith. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y mae'r disgrifiad anecdotaidd hwn am

gynnydd yn y galw yn dylanwadu ar lefelau dyrannu posibl ar gyfer gradd-brentisiaethau yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

- 3.83 Fodd bynnag, roedd amseriad y pandemig a'r cyfnod clo cysylltiedig wedi creu cryn drafferthion o ran recriwtio myfyrwyr i ddechrau ym mis Medi 2020. Roedd y cyfyngiadau symud wedi cyfyngu ar y gallu i ennyn diddordeb cyflogwyr, a hwythau i raddau helaeth wedi canolbwyntio ar addasu, yn weithredol, i gyfyngiadau'r cyfnod clo. Mewn ymateb, mae nifer o'r sefydliadau AU yn cynllunio derbyn carfannau prentisiaid ychwanegol ym mis Ionawr ac/neu fis Mawrth 2021.

Myfyrdodau ar roi'r rhaglen ar waith

- 3.84 Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd yn y cam hwn am eu myfyrdodau cychwynnol ar weithredu'r rhaglen Gradd-brentisiaeth. Er gwaethaf y pryderon ynghylch y gwahaniaeth rhwng rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a CCAUC, roedd sawl un (cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a CCAUC) wedi cyfeirio at gryfder y berthynas rhwng y ddau sefydliad. Roedd sefydliadau AU hefyd yn adleisio cryfder y rôl y mae CCAUC wedi'i chael wrth oruchwylio'r rhaglen ac, yn gyffredinol, mae barn gadarnhaol am reolaeth y rhaglen.
- 3.85 Mae ymdeimlad hefyd bod sefydliadau AU yn dechrau ehangu eu hymgysylltiad â gwahanol gyflogwyr, a hynny drwy straeon yn mynd ar led am lwyddiant y rhaglen a phrofiadau cadarnhaol gan brentisiaid a'u cyflogwyr. Ar hyn o bryd, anecdotaidd yn unig yw'r dystiolaeth hon ac (yn ôl pob tebyg) mae'r pandemig wedi cyfyngu ar gynnydd yn hyn o beth. Bydd y dadansoddi ar wybodaeth reoli yng nghan nesaaf y gwerthusiad yn cynnwys mapio patrymau a thueddiadau'r ymgysylltu â chyflogwyr.
- 3.86 Er bod natur a lefel y cydweithio rhwng sefydliadau AU a cholegau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW) yn amrywio, mae i'w weld yn ffordd effeithiol o ehangu'r ymwneud rhwng sefydliadau AU a chyflogwyr. Mae pob dull gweithredu ychydig yn wahanol ond mae tueddiad i golegau AB a darparwyr DSW fod yn hwyluswyr i'r ymgysylltu â chyflogwyr. Tueddai sefydliadau AU wedyn i gryfhau'r berthynas hynny â chyflogwyr dros amser, yn enwedig wrth i radd-brentis fynd yn ei flaen drwy ei brentisiaeth.

- 3.87 Cymysg oedd yr adborth ar ddyluniad a datblygiad y fframweithiau. Cyfeiriodd rhai at eu datblygiad fel cryfder, yn enwedig o ystyried yr amserlenni yr oeddent yn gweithio iddynt, tra bod eraill, yn enwedig sefydliadau AU, yn teimlo y byddai mwy o gydweithio ar ddyluniad y fframwaith wedi goresgyn rhai o'r cyfyngiadau a gafwyd.
- 3.88 Mae pryderon yn parhau yn ehangach o amgylch y naratif sy'n gysylltiedig â'r rhaglen (fel cyfnod cychwynnol), y diffyg marchnata a hyrwyddo cysylltiedig a, gyda'i gilydd, sut mae hynny'n tanseilio'r argraff ynghylch pa mor hir y bydd yn para. Yn yr un modd, cyfeiriodd y rhan fwyaf o sefydliadau AU at oblygiadau'r terfynau amser tynn, blynyddol ar gyfer cyflwyno cynigion, ymgysylltu â chyflogwyr, a chyflenwi'r rhaglen.
- 3.89 Mae dadansoddi'r cynnydd yn dangos fod y rhaglen, hyd yn hyn, wedi recriwtio llai o brentisiaid na'r hyn a ddyrannwyd. Tra bod pandemig COVID-19 (yn sicr) wedi effeithio ar recriwtio ar gyfer mis Medi 2020, eto roedd diffyg i'w weld yn y lefelau recriwtio cyn hynny. Roedd y niferoedd a oedd wedi cofrestru ar y rhaglen Gradd-brentisiaeth ym mis Ionawr 2021 ac a ragwelir ar gyfer mis Mawrth 2021 wedi lleihau lefel y diffyg o'i gymharu â'r dyraniad; fodd bynnag, mae maint y gostyngiad yn aneglur ar hyn o bryd. Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod y rhaglen wedi bod yn gymharol lwyddiannus wrth recriwtio gweithwyr o BBaChau (er bod BBaChau yn cynrychioli 99 y cant o'r holl fusnesau yng Nghymru, maent ond yn cynrychioli 60 y cant o'r holl weithwyr).²⁴ Wedi dweud hynny, teimlai sefydliadau AU fod yr amserlenni a oedd yn gysylltiedig â'r dyfarnu cyllid, y cyhoeddiadau cyllid blynyddol, a'r diffyg buddsoddiad parhaus oll wedi cyfyngu ar eu gallu i ymgysylltu â BBaChau. Bydd dadansoddi pellach ar berfformiad gradd-brentisiaethau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn helpu i feincnodi perfformiad mewn perthynas ag ymgysylltu â BBaChau.

²⁴ ONS (2020) [Amcangyfrifon poblogaeth busnes ar gyfer y DU a'r rhanbarthau: datganiad ystadegol 2019](#) – cyhoeddwyd 14 Ionawr 2020:

- 3.90 Mae'r cynnydd mewn perthynas ag ehangu cyfranogiad yn llai clir. Mae'r dadansoddiad cyffredinol yn nodi bod menywod yn cynrychioli 14 y cant o'r cyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen a bod cyfran y dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn debyg i'r rhai sy'n gwneud eu gradd gyntaf. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adran hon, bu gostyngiad amlwg yng nghyfran y gradd-brentisiaid sy'n cofrestru sydd wedi cwblhau gradd flaenorol (o 24 y cant yn 2018/19 i 15 y cant yn 2019/20²⁵, ac mae gan lawer llai o radd-brentisiaid fam neu dad sydd â chymwysterau AU na myfyrwyr sy'n gwneud eu gradd gyntaf.²⁶
- 3.91 Cynhelir dadansoddiad manylach o berfformiad yng nghanam nesaf y gwerthusiad er mwyn archwilio a nodi patrymau perfformiad a llwyddiant fesul sefydliad AU. Caiff y dystiolaeth a gasglwyd ei meincnodi yn erbyn tystiolaeth a gedwir gan HESA ynghylch graddau prif ffrwd ac yn erbyn tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer rhaglenni gradd-brentisiaeth yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig.
- 3.92 Mae'r adran ganlynol yn defnyddio'r canfyddiadau hyn wrth ddatblygu theori newid a'r fframwaith gwerthuso cysylltiedig, sydd gyda'i gilydd yn llywio gwaith gweddill y gwerthusiad.


²⁵ Dadansoddiad CCAUC o gofnodion myfyrwyr HESA ar gyfer myfyrwyr yn dechrau 2018/19 a dadansoddi data a gasglwyd gan ddarparwyr AU ar gyfer y rhai yn dechrau yn 2019/20 ac yn 2020/21.

²⁶ Dadansoddiad CCAUC o gofnodion myfyrwyr HESA ar gyfer 2018/19 a 2019/2.

4. Theori Newid a Model Rhesymeg

- 4.1 Mae Llyfr Magneta Trysorlys ei Mawrhydi (2020) yn datgan bod llunio polisïau da yn gofyn am ddealltwriaeth drylwyr o'r ymyriad a sut y disgwylir iddo gyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir. Mae gwerthusiad da hefyd angen y ddealltwriaeth hon, ac mae theori newid yn ddull gweithio sy'n helpu i sicrhau bod testun gwerthusiad yn cael ei ddeall yn llawn.
- 4.2 Mae theori newid yn esbonio sut y disgwylir i ymyriad weithio (sef nodi'r holl gamau rhagweledig a fydd yn rhan o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir), y rhagdybiaethau sy'n sail i gyflawni'r camau hyn, ansawdd a chryfder y dystiolaeth sy'n eu cefnogi, a'r ffactorau cyd-destunol ehangach. Mae datblygu theori newid fel rheol yn cynnwys ystyried y mewnbynnau a gynigir (pa fuddsoddiad/camau gweithredu fydd yn digwydd) a'r gadwyn achosol sy'n arwain o'r mewnbynnau hyn drwodd i'r allbynnau disgwyliedig (yr hyn sy'n cael ei ddarparu neu ei gynhyrchu), canlyniadau (y canlyniadau cynnar neu dymor canolig) ac, yn y pen draw, yr effaith (y canlyniadau hirdymor).


Ffigur 4.1: Enghraifft o Theori Newid Llinol²⁷



²⁷ Trysorlys ei Mawrhydi (2020).

- 4.3 Cafodd y theori newid ar gyfer y rhaglen ei llunio drwy gyfuniad o'r adolygiad desg a'r cyfweliadau cwmpasu. Gosododd yr adolygiad sylfaen i'r rhesymeg dros yr ymyriad a'r mewnbynnau (buddsoddiad) i'r rhaglen yn ogystal ag i'r canlyniadau a'r effeithiau a ragwelid. Cynorthwyodd y cyfweliadau i nodi gweithgareddau i gyflenwi'r gradd-brentisiaethau yn ogystal â'r risgiau a'r rhagdybiaethau sylfaen sy'n gysylltiedig â'r rhaglen.
- 4.4 Yn dilyn y cyfweliadau cwmpasu, cynhaliwyd gweithdy gyda'r rhai a oedd bod yn rhan o gynllunio, gweithredu a rheoli'r rhaglen, a'r gweithdy hwnnw wedi ceisio mapio'r canlyniadau cysylltiedig a ragwelwyd i'r rhaglen Gradd-brentisiaeth a sut byddai'r rhain yn cyfrannu at nod y rhaglen. Cynigiodd y gweithdy nod cyffredinol ar gyfer gradd-brentisiaethau, sef datblygu 'gweithlu sydd â sgiliau i ateb cyfleoedd a heriau'r dyfodol'. Cyflwynir y canlyniadau tuag at y nod hwnnw yn Ffigur 4.2 ac maent wedi'u mapio'n ddilyniannol fel llwybr tuag at y nod hwnnw.
- 4.5 Mae'r theori newid wedi'i hadeiladu o gwmpas tri 'rhanddeiliad' sy'n gysylltiedig â'r gradd-brentisiaethau, sef sefydliadau AU a cholegau AB, prentisiaid, a chyflogwyr. Mae'r canlyniadau hynny ar yr ochr dde yn gysylltiedig â sefydliadau AU, colegau AB, a chyflogwyr, tra bod y rhai ar yr ochr chwith yn gysylltiedig yn bennaf â'r prentis.
- 4.6 Ar ôl mapio'r canlyniadau, aeth y gweithdy ati i edrych ar y rhagdybiaethau, y rhwystrau a'r risgiau, a'r galluogwyr a fyddai'n dylanwadu ar wireddu'r theori newid sy'n gysylltiedig â'r rhaglen. Cyflwynir theori newid llinol ar gyfer y rhaglen yn Ffigur 4.3. Mae'n bwysig nodi bod y theori newid yn waith sydd ar y gweill, gyda barn cyflogwyr, prentisiaid, sefydliadau AU, a cholegau AB i'w casglu yn ystod cam nesaf y gwerthusiad a hynny'n debygol o arwain at fireinio a datblygu'r theori newid ymhellach.
- 4.7 Yn dilyn cyflwyno'r theori newid (y gellir ei gweld dros y dudalen), roedd trafodaeth bellach ynghylch yr elfennau allweddol wedi nodi sut mae'n cymharu â'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwerthusiad. Yn ogystal, mae'n archwilio'r prif feysydd i'w hystyried yn y fframwaith gwerthuso, gan yn ei dro lywio gwaith gweddill y gwerthusiad.

Ffigur 4.2: Llwybr Canlyniadau ar gyfer y Rhaglen Gradd-brentisiaeth



Ffigur 4.3: Theori Newid Llinol

	<i>Dan reolaeth y Rhaglen Gradd-brentisiaeth</i>		<i>Y tu hwnt i reolaeth y Rhaglen Gradd-brentisiaeth</i>	
Mewnbynnau	Gweithgareddau (Allbynnau)	 Canlyniadau A	Canlyniadau B	Effeithiau
• Cronfa grant o £20m i CCAUC dros dair blynedd • Gwybodaeth am y farchnad lafur a'r sectorau lle mae anghenion sgiliau yn fwyaf dwys a lle ceid yr effaith fwyaf bosibl (gan SAU, cyflogwyr, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a LIC) • Cydweithio rhwng y Cyngor Sgiliau a chyflogwyr i lunio'r fframweithiau prentisiaeth • Tystiolaeth a phrofiad yn rhyngwladol ac yng ngwledydd eraill y DU wrth gyflenwi gradd-brentisiaethau • Buddsoddiad staffio/isadeiledd ymysg sefydliadau AU	• Llunio a chyhoeddi fframweithiau prentisiaeth • Llunio a dilysu cyrsiau Gradd-brentisiaethau dan arweiniad SAU • Cydweithredu rhwng colegau AB-SAU • Datblygu a chyflwyno cynigion gradd-brentisiaethau • Recriwtio/aillddyrannu staff SAU i gyflenwi'r gradd-brentisiaethau • Cyflogwyr yn ymgysylltu ac yn cydweithio (niferoedd) • Mentora prentisiaid • Cyflenwi gradd-brentisiaeth • Darpariaeth sgiliau hanfodol • Sesiynau astudio / cyrsiau / bwt-camp ychwanegol • Cyfarfodydd/sesiynau teiran gyda phrentis/cyflogwr/darparwr • Sefydlu gwasanaeth paru prentisiaethau • Comisiynu'r gwerthusiad cyntaf Allbynnau • Nifer y prentisiaid (cyflogeion presennol a rhai newydd) sydd wedi cofrestru • Nifer y prentisiaid â nodweddion gwarchodedig sydd wedi cofrestru	Prentisiaid • Gwell sgiliau / gwybodaeth sy'n gysylltiedig â gwaith Cyflogwyr • Nifer y cyflogwyr/BBaCh yr ymgysylltwyd â hwy • Mwy o ymwybyddiaeth am radd-brentisiaethau ymhlith cyflogwyr / cyflogeion > y boblogaeth oedolion SAU/Colegau AB • Mwy o ddarpariaeth Gymraeg ar L6 • Mwy o gyfleoedd galwedigaethol ar L6 • Llwybrau dysgwyr sy'n cefnogi dilyniant drwy brentisiaethau • Sgiliau lefel uwch ar gael yn rhwyddach • Arloesi a mireinio dulliau addysgu a dysgu	Prentisiaid • Nifer y rheiny sydd wedi cofrestru yn cwblhau prentisiaethau • Gwell rhagolygon gyrfa /enillion • Lles/boddhad â bywyd yn well Cyflogwyr • Cyfraddau uwch o gadw staff • Diwylliant dysgu sy'n seiliedig ar waith wedi'i ymgorffori yn gryfach ymhlith cyflogwyr • Mynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y gweithle SAU/Colegau AB • Cydweithio ehangach rhwng SAU a chyflogwyr • Mwy o gydweithredu rhwng SAU, sefydliadau AB a darparwyr DSW • Gwell dealltwriaeth o anghenion y diwydiant mewn SAU • Cyfrannu tuag at fwy o gydraddoldeb rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd	Cyfrannu at: • Ehangu cyfranogiad mewn darpariaeth sgiliau lefel uwch • Sgiliau ar lefelau uwch ymhlith y farchnad lafur • Mwy o arloesi a chystadleurwydd • Mwy o symudedd cymdeithasol • Gweithlu sydd â sgiliau i ateb cyfleoedd a heriau'r dyfodol • Effaith gadarnhaol ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran iechyd, lles, ffyniant, y Gymraeg a chydaddoldeb yng Nghymru

Rhagdybiaethau • Bod pob sefydliad AU eisiau bod yn rhan a bod ganddynt y capasiti i gymryd rhan ac i gyflawni drwy'r rhaglen Gradd-brentisiaeth • Bod partneriaethau strategol gyda cholegau AB/darparwyr DSW yn cael eu sefydlu a'u cynnal • Y glynir wrth gydlynid rhanbarthol oni bai bod rheswm clir dros beidio â gwneud hynny • Bod y llwybrau at ddeall a rhagweld anghenion sgiliau yn ymatebol, yn effeithiol ac yn gywir • Bod perthynas rhwng datblygu sgiliau ac enillion cynhyrchiant • Mai gradd-brentisiaethau yw'r dull cywir a'u bod yn adeiladu'r sgiliau cywir i greu budd i'r cyflogwr a'r economi • Bod digon o gyllideb/adnoddau i gyflawni'r galw presennol am radd-brentisiaethau yn yr economi ddigidol a'r sectorau gweithgynhyrchu uwch a pheirianeg • Bod modd casglu tystiolaeth i ddeall manteision lluosog y model hwn o'i gymharu â modelau eraill i ddatblygu'r gweithlu • Bod y gwerthusiad yn nodi ac/neu'n datblygu modelau i sefydlu gwerth y rhaglen ledled yr economi, cyflogwyr, unigolion, a'r gymuned ehangach • Bod galw am ddarparu gradd-brentisiaethau yn Gymraeg	
Rhwystrau a Risgiau • Buddsoddiad cychwynnol tair blynedd sy'n gyfyngedig o ran amser yn tanseilio parodrwydd AU i fuddsoddi/prif ffrydio Gradd-brentisiaethau • Efallai na fydd cystadleuaeth sefydliadau AU a dyheadau cyflogwyr yn cyd-fynd â'r amcanion cydlynid rhanbarthol • Ystyrir bod y dyraniad cyllid ar gyfer y rhaglen yn werth gwael am arian • Diffyg cydweithio parhaus rhwng AB/DSW yn tanseilio'r gallu i wella dilyniant llwybrau dysgwyr • Yr ymdrech i gael cydlynid rhanbarthol yn cyfyngu ar ymgysylltiad cyflogwyr â'r darparwyr a ffefrir ganddynt • Amserlenni sy'n gysylltiedig â chyhoeddiadau cyllid blyneddol yn creu heriau wrth ddilysu rhaglenni ac ymgysylltu â chyflogwyr 'newydd' • Cyflenwi o bell yn gwneud y cyfarfodydd rhwng y tri rhanddeiliad yn anodd, felly hefyd yr ymweliadau gwaith â phrentisiaid • Diffyg hyrwyddo gweithredol ar y rhaglen yn cyfyngu ar y cyfle i ymgysylltu â chyflogwyr 'newydd' • Targedu pynciau STEM lle mae anghydbwysedd ym mhroffil rhyw y gweithlu yn gallu cyfyngu ar gyfle cyfartal • Cyflogwyr sy'n talu ardoll yn rhwystredig nad ydynt yn gallu cael gafael ar y sgiliau y teimlent y mae eu busnes eu hangen ar lefel y radd-brentisiaeth • Camagraff/camddealltwriaeth ynghylch y term 'prentisiaeth' • Cyflogwyr a SAU sy'n gweithio ar draws ffiniau yn gallu creu dryswch ac/neu symud o un rhaglen brentisiaeth i un arall • COVID-19 a'r dirwasgiad cysylltiedig yn arwain at lai o awydd i ymgysylltu/dileu swyddi prentisiaethau • Methu ag integreiddio dysgu a hyfforddiant y radd â phrofiad y cyflogwyr/gweithiwr	Galluogwyr • Nifer o sefydliadau AU yn cynnig gradd-brentisiaethau mewn meysydd pwnc tebyg yn rhoi modd i gyflogwyr gymryd rhan yn y cyrsiau sydd fwyaf addas i'w hanghenion nhw • Ehangu i feysydd pwnc eraill lle mae angen clir, effaith bosibl, a galw amlwg • Arbenigwyr sectorau sydd â'r sgiliau a'r profiad cywir i ddatblygu fframweithiau • Y gallu i ddangos gwerth – yr achos busnes ar gyfer yr holl randdeiliaid

Sail Resymegol y Rhaglen

- 4.8 Mae angen cynyddu'r ddarpariaeth sydd ar gael mewn sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ar lefel uwch sy'n canolbwyntio ar y diwydiant yng Nghymru er mwyn ymateb i'r galw presennol a'r galw a ragwelir am sgiliau lefel uwch yn yr economi. Mae gradd-brentisiaethau yn cynnig cyfle i ateb galw o'r fath drwy ddysgu integredig yn y gwaith sy'n arwain at ddyfarnu gradd i'r prentis.
- 4.9 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod prentisiaethau yn gyfrwng ar gyfer darparu'r sgiliau a fydd yn diffinio cystadleurwydd Cymru yn y dyfodol. Ystyrir eu bod yn ffordd allweddol o alluogi Cymru i ddatblygu yn genedl hyfedr iawn sy'n gallu codi ei chynhyrchiant, darparu llwybr amgen i addysg uwch a rhoi cydraddoldeb i lwybrau galwedigaethol ac academiaidd, ynghyd â lleihau rhwystrau i waith a chefnogi pobl i gael gwaith cyflogedig.
- 4.10 Mae pynciau STEM, yn enwedig y rheiny sy'n alinio â'r sectorau peirianeg a gweithgynhyrchu uwch a thechnoleg ddigidol, wedi'u nodi i fod yn flaenoriaeth ar gyfer gradd-brentisiaethau. Ystyrir mai'r sectorau hyn yw'r meysydd lle mae'r anghenion pennaf am sgiliau uwch a lle mae'r cyfleoedd cryfaf yn bodoli ar gyfer creu swyddi a gwella cynhyrchiant.

Mewnbynnau

- 4.11 Cymhleth fu pennu graddfa'r buddsoddiad arfaethedig yn y rhaglen Gradd-brentisiaeth (£20 miliwn dros dair blynedd) oherwydd yr angen i gydbwysu'r hyn a allai fod yn gyllideb realistig yn erbyn y galw posibl (ar adeg pan oedd diffyg tystiolaeth am y galw). Mae hyd y cyllid ar gyfer y rhaglen Gradd-brentisiaeth ynghyd â dyfarnu'r cyllid yn flynyddol wedi dylanwadu ar barodrwydd sefydliadau AU i ymgysylltu â'r rhaglen ac i fuddsoddi ynddi.
- 4.12 Mae gwybodaeth y farchnad lafur wedi cyfrannu at ddewis y ddau sector penodol, ac at ddatblygiad y fframweithiau prentisiaeth wedi hynny, gan dynnu ar fewnwelediadau gan gyflogwyr, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau AU. Nodwyd bod gan y Cynghorau Sgiliau Sector rôl allweddol wrth ddatblygu'r fframweithiau. Fodd bynnag, roedd diffyg gallu un Cyngor i ymgysylltu'n llawn â'r broses hon wedi arwain at oedi wrth weithredu'r fframwaith ac wedi arwain at orfod comisiynu ymgynghorydd allanol i gryfhau'r broses a helpu i gyflawni'r dasg.

- 4.13 Wrth flaenoriaethu'r sectorau hyn, mae'r rhaglen wedi gorfod ceisio cadw balans wrth benderfynu faint o sectorau i fwrw ymlaen â hwy yn erbyn adnoddau cyfyngedig dros gyfnod o dair blynedd, heb unrhyw brofiad blaenorol o radd-brentisiaethau i fod yn sail i'r penderfyniad. Dylanwadodd hyn ar rywfaint o bwylllo ynghylch gweithgarwch hyrwyddo er mwyn osgoi galw na ellid ei lenwi. Fodd bynnag, dengys y wybodaeth reoli bod y rhaglen yn gweithredu gyda llai na hanner nifer y prentisiaid a neilltuwyd ar gyfer y fframwaith Digidol a llai na deuparth ar gyfer y fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch. Er y byddai wedi bod yn amhosibl rhagweld y risg o ostyngiad sylweddol yn y galw oherwydd pandemig COVID-19 a'r dirwasgiad cysylltiedig, roedd elfen o'r diffyg hwn wedi codi cyn y pandemig. Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn cynnwys dadansoddiad manylach o berfformiad fesul sefydliad AU ac ymchwiliad sy'n edrych yn fwy penodol ar y dylanwadyr allweddol mewn perthynas â'r galw. Ar y cam hwn ymddengys y byddai ymestyn yr amserlenni ar gyfer recriwtio, rhaglen fuddsoddi fwy cyson, a mwy o fuddsoddi mewn marchnata a hyrwyddo, oll yn dylanwadu ar y galw.
- 4.14 Wrth baratoi i ymateb i'r cais am gynigion i ddarparu gradd-brentisiaethau, mae sefydliadau AU wedi buddsoddi yn eu staff ac yn eu perthynas â cholegau AB/darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW) a chyflogwyr. Fodd bynnag, mae eu gallu i ymateb i'r cyfleoedd hyn wedi cael ei gyfyngu rywfaint gan yr amserlenni a oedd yn gysylltiedig â phob cyhoeddiad blynyddol am gynigion a dyfarniad ariannu.

Gweithgareddau (Allbynnau)

- 4.15 Roedd yr amseriadau a oedd yn gysylltiedig â'r pecyn cyllid ar gyfer y rhaglen hefyd wedi dylanwadu ar allu sefydliadau AU (neu golegau AB a darparwyr DSW) i ennyn diddordeb cyflogwyr. Adroddodd sefydliadau AU sut yr oedd yr amserlenni tynn wedi golygu bod BBaChau wedi bod yn llai abl i ymgysylltu â'r broses hon heb sicrwydd buddsoddiad.
- 4.16 Prif allbwn y rhaglen Gradd-brentisiaeth yn ystod y cyfnod peilot yw nifer y prentisiaid sydd wedi cofrestru ar y rhaglen. Mae gan y gwerthusiad ddiddordeb mewn deall nodweddion yr unigolion hynny er mwyn archwilio i ba raddau y mae'r rhaglen yn hwyluso ehangu cyfranogiad mewn darpariaeth sgiliau uwch. Yn ogystal, bydd yn archwilio sefyllfa'r prentisiaid cyn hynny, h.y. a ydynt yn newydd i gyflogwyr neu'n gyflogaion presennol. Mae dadansoddi'r data ledled y rhaglen yn rhoi tystiolaeth gychwynnol o ehangu cyfranogiad (o ran cyfran y prentisiaid o ardaloedd

o amddifadedd ac sydd â dysgu blaenorol ar y lefel hon). Prin yw'r dystiolaeth, fodd bynnag, o gynnydd yn nifer y menywod yn cofrestru. Awgryma tystiolaeth ledled y rhaglen²⁸ fod 14 y cant o'r gradd-brentisiaid presennol yng Nghymru yn fenywod (95/660); fodd bynnag, mae cyfran y menywod sydd wedi cofrestru ar y rhaglen Gradd-brentisiaeth wedi gostwng dros y ddwy flynedd gyntaf (gyda chynrychiolaeth menywod yn cyfrif am 22 y cant o gofrestriadau yn 2018/19 ac 16 y cant yn 2019/20). Wedi dweud hynny, mae cyfran y nifer o fenywod sy'n cofrestru yn uwch nag ar brentisiaethau, gyda Swyddfa Archwilio Cymru (2019) yn nodi ar gyfer y sector peirianeg bod nifer y menywod sy'n cofrestru mewn prentisiaethau yn tua 10 y cant a bod hyn yn debyg i broffil y rhywiau ar raddau cyntaf mewn peirianeg a thechnoleg neu Gyfrifiadura.²⁹ Nodwyd pryderon ar gam dylunio'r rhaglen am y mater hwn, a chyfeirir mewn sawl adroddiad am yr angen am weithgarwch wedi'i dargedu i gynyddu cyfranogiad menywod mewn pynciau STEM (gweler Llywodraeth Cymru [2016a a 2016b], er enghraifft). Mae'n bosibl bod hwn yn faes lle gellid targedu'r marchnata yn fwy rhagweithiol, yn enwedig ymhlith ysgolion, er mwyn ennyn diddordeb merched i ymuno.

- 4.17 Mae taith y cyflogwr i gymryd rhan yn y rhaglen yn faes pwysig i'w archwilio. Meysydd allweddol i'w hystyried fydd ehangder a natur yr ymgysylltu, a'r graddau y mae cyflogwyr nad oes ganddynt gysylltiadau eisoes â sefydliadau AU a cholegau AB wedi ymwneud â'r rhaglen. Awgryma adborth gan sefydliadau AU mai prin yw'r ehangu ar gyflogwyr y tu hwnt i gysylltiadau a oedd eisoes yn bodoli, a hynny oherwydd proffil isel y rhaglen a'r amserlenni ar gyfer cyflenwi. Wedi dweud hynny, bydd deall sut daeth cyflogwyr i wybod am y rhaglen, yn ogystal â'r hyn sy'n eu denu iddi, yn bwysig wrth bennu'r galw tebygol os cynhelir gweithgareddau hyrwyddo ychwanegol, neu os cyflwynir meysydd pwnc ychwanegol.
- 4.18 Bydd cymharu a gwrthgyferbynnu'r modelau cyflenwi a fabwysiadwyd gan bob sefydliad AU i gynnal y rhaglen yn helpu i nodi'r hyn sy'n gweithio, ac i bwy, wrth roi cymorth. Mae nifer o ofynion allweddol y mae angen i bob sefydliad AU lynu atynt. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, yr ymweliadau yn y gwaith, a oedd wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi a bod sgiliau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi wrth gyflenwi'r rhaglen. Er bod cam cwmpasu'r gwerthusiad wedi cyffwrdd â'r agweddau hyn, bwriedir cynnal adolygiad manylach

²⁸ Dadansoddiad CCAUC o ddata a gasglwyd yn uniongyrchol o sefydliadau Addysg Uwch Cymru.

²⁹ Ibid.

o'r prosesau cyflenwi yng ngham nesaf y gwerthusiad. Bydd hefyd yn bwysig gweld sut y mae'r ddarpariaeth wedi addasu wrth ymateb i bandemig COVID-19, yn ogystal ag i ba raddau y gall yr addasiadau hynny ddylanwadu ar fodelau cyflenwi y tu hwnt i'r pandemig.

Canlyniadau

- 4.19 Mae'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen wedi'u rhannu yn ôl math o randdeiliaid, sef yr unigolyn (y prentis), y cyflogwr, a'r darparwr gwasanaeth (sefydliad AU/coleg AB). Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r unigolyn yn canolbwyntio ar eu gallu i gwblhau'r rhaglen a goblygiadau cwblhau ar eu gyrfa a'u lles. Mae'r rhain yn feysydd allweddol i'w harchwilio yng ngham nesaf y gwerthusiad a byddant yn cynnwys datblygu fframwaith ar gyfer sefydlu'r effaith tymor hwy sy'n deillio o wneud gradd-brentisiaeth.
- 4.20 Ar ôl i gyflogwyr ddod yn rhan, bydd y gwerthusiad yn archwilio eu barn ar eu profiad o'r rhaglen a sut mae'r profiad wedi dylanwadu ar eu hagwedd tuag at radd-brentisiaethau a thuag at ddatblygu'r gweithlu yn fwy cyffredinol. Yn ogystal, bydd yn ystyried eu tebygolrwydd o barhau i ymgysylltu ac a yw cymryd rhan a chydweithredu â'r sefydliad AU wedi arwain at unrhyw fuddion cysylltiedig neu effeithiau 'gorlif'.
- 4.21 Drwy archwilio barn cyflogwyr am werth y rhaglen iddynt, gan gasglu eu barn am y model ariannu a'u parodrwydd posibl i dalu (neu gyfrannu at y costau), bydd modd hefyd gael syniad o'r opsiynau posibl ar gyfer cynnal cyllid gradd-brentisiaethau y tu hwnt i gyfnod cyntaf y rhaglen.
- 4.22 Mae'r rhaglen wedi annog cydweithio ymhlith sefydliadau AU a cholegau AB, gyda'r disgwyliad y byddai colegau AB yn darparu llwybr defnyddiol i ymgysylltu â chyflogwyr ac y byddent yn cyd-gyflwyno elfennau o'r radd-brentisiaeth. Edrychir yn fanylach ar strwythur penodol y partneriaethau hyn yng ngham nesaf y gwerthusiad, ynghyd â dyheadau (ymhlith colegau AB a sefydliadau AU ill dau) i gadw'r rhain yn y dyfodol.

Effeithiau

- 4.23 Nod uchaf y rhaglen yn y pen draw yw datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau i ymateb i gyfleoedd a heriau'r dyfodol. Wrth gyflawni'r nod hwn mae cyfraniad at gyfoeth o

amcanion polisi eraill sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd, datblygu economaidd, a lles.

- 4.24 Mae ehangder dylanwad yr effeithiau a restrir ar bolisi yn dangos potensial y rhaglen, gan ysgogi datblygiad sgiliau ar y pen uchaf yn ogystal â chynyddu symudedd cymdeithasol ymhlith y boblogaeth oedolion, a chyfrannu at gyflogadwyedd a gwella lefelau cynhyrchiant. Canlyniad hollbwysig i'r gwerthusiad fydd sefydlu fframwaith effaith a all archwilio rôl gradd-brentisiaethau yn cyfrannu at y meysydd effaith hyn dros y tymor hwy.

Prif Ragdybiaethau, Galluogwyr a Rhwystrau

- 4.25 Mae datblygu theori newid ar gyfer y rhaglen wedi nodi nifer o ragdybiaethau pwysig sy'n sail i ddyluniad y rhaglen, a chyfeiriwyd at nifer o'r rhain mewn perthynas â phob cam y theori newid yn y naratif uchod.
- 4.26 Er y cynhaliwyd ymgynghoriad parhaus gyda sefydliadau AU i bennu'r diddordeb yn y rhaglen Gradd-brentisiaeth, roedd rhagdybiaeth drwy gydol y cyfnod cyn ei chyflwyno y byddai sefydliadau AU yn ymateb gyda chynigion i ddarparu gradd-brentisiaethau yn y ddau sector a nodwyd.
- 4.27 Mae'r rhaglen hefyd wedi dibynnu cryn dipyn ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) o ran sicrhau bod digon o alw yn y sectorau a nodwyd, cadarnhau y dylid blaenoriaethu'r rhain ac mai dyma'r rhai sy'n cynnig y potensial mwyaf. Pan drafodwyd meysydd twf posibl ar gyfer y rhaglen gyda sefydliadau AU roedd dyhead am ehangu fertigol (gradd-brentisiaethau lefel 7) yn ogystal ag yn llorweddol (i sectorau eraill). Adeiladu ac iechyd a gofal cymdeithasol a nodwyd amlaf i fod yn sectorau o ddiddordeb yn sgil y farn bod galw sylweddol yn bodoli yn y meysydd hyn. Yn ogystal, deallir bod CCAUC wrthi'n ymgynghori â sefydliadau AU ynghylch meysydd posibl i ehangu iddynt. Edrychir yn fanylach yng ngham nesaf y gwerthusiad ar y dulliau a ddefnyddir i bennu blaenoriaethau'r rhaglen yn y dyfodol.

Rhwystrau/Risgiau a Galluogwyr

- 4.28 Fel rhaglen newydd sy'n derbyn buddsoddiad cychwynnol, efallai bod mwy o risgiau a rhwystrau posibl nag yn achos ymyriadau polisi sydd â chyd-destun mwy sefydledig. Mae meysydd risg allweddol yn cynnwys i ba raddau y mae sefydliadau AU yn prif ffrydio eu model darparu gradd-brentisiaethau pan fo ymrwymiad i'r rhaglen wedi'i gyfyngu i dair blynedd.

- 4.29 Mae meysydd eraill y bydd angen i'r gwerthusiad eu harchwilio, gan gynnwys sut mae cyflogwyr sy'n talu ardollau yn ymateb i'r rhaglen hon o'i chymharu â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr, yn enwedig os ydynt yn gweithredu yn y ddwy wlad. Disgrifiodd un sefydliad AU sut oedd *'cwmnïau'n ei chael hi'n anodd gweld yr elw o'r ardoll. Talu i San Steffan, yn ôl i Gaerdydd ac wedyn i CCAUC, mae gormod o ddolenni yn y gadwyn'* (Cynrychiolydd sefydliad AU).
- 4.30 Yn ehangach, mae risgiau'n gysylltiedig am yr argraff am werth am arian gradd-brentisiaethau, yn arbennig wrth wynebu cymariaethau cymharol fraso cost gradd-brentisiaeth â chost prentisiaeth 'arferol'. Daw'r cyllid ar gyfer gradd-brentisiaethau o'r dyraniad ehangach ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru. Mae cost y cyfle o wneud gradd-brentisiaeth (a 'chost' canfyddedig prentisiaethau ar lefel is) yn atgyfnerthu'r angen i nodi model ar gyfer pennu'r gwerth cymharol am arian a'r effaith sy'n deillio o'r buddsoddiad hwn.

Casgliad

- 4.31 Wrth fodelu theori newid ar gyfer y rhaglen Gradd-brentisiaeth, mae ei chyfraniad at amrywiaeth o bolisiau Llywodraeth Cymru yn amlwg. Mae'n cyflawni yn erbyn cyfres o ganlyniadau sydd, yn ei dro, yn arwain at theori newid gymharol gymhleth, sy'n rhannol dan ddylanwad y rhanddeiliaid allweddol sy'n ganolog i'w llwyddiant.
- 4.32 Trwy ehangder ei chwmpas a nifer y canlyniadau a nodwyd, mae potensial y rhaglen yn amlwg; fodd bynnag, fel buddsoddiad cychwynnol, mae nifer o risgiau a rhwystrau a allai effeithio ar ei llwyddiant. Mae'r theori newid ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r adborth o'r cam cwmpasu, yn nodi cyfres o feysydd ymchwilio allweddol. Mae'r manylion am y dull yr eir ati i archwilio'r rhain wedi'u cyflwyno yn y fframwaith gwerthuso.³⁰
- 4.33 Mae'r adran nesaf yn crynhoi canfyddiadau'r ymchwil ac yn amlinellu'r argymhellion a'r camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad.

³⁰ Mae'r fframwaith gwerthuso ar gael o ofyn amdano.

5. Crynodeb o'r Canfyddiadau a'r Camau Nesaf

- 5.1 Cynlluniwyd y rhaglen Gradd-brentisiaeth yng Nghymru yn benodol i ganolbwyntio ar feysydd penodol mewn dau sector lle credir bod mwy o anghenion sgiliau ar y lefel uwch a lle credir bod enillion cynhyrchiant yn fwyaf tebygol.
- 5.2 Heriol fu'r gwaith o bennu dyraniadau cyllid ar gyfer y rhaglen a sefydlu'r seilwaith ar gyfer y cyflenwi (yn enwedig y fframweithiau prentisiaeth). Awgryma tystiolaeth gychwynnol ar lefel y rhaglen gyfan fod gor-ddyrannu lleoedd prentisiaeth wedi digwydd ar gyfer y cam cychwynnol hwn. Fodd bynnag, roedd cyhoeddi rhaglen tair blynedd i gychwyn arni, y datganiadau cyllid blynyddol, amserlenni'r cyllid a ddyfernir ac, yn fwy diweddar pandemig COVID-19, oll wedi dylanwadu ar gynnydd.

Argymhellion

Os bydd cyllid blynyddol yn parhau, byddai cyhoeddiadau yn gynt (yn y flwyddyn) ynghylch y dyraniad blynyddol, yn ogystal â gweithredu'r broses cynigion a'u cymeradwyo yn gynt, yn cefnogi cynnydd a llwyddiant y rhaglen.

Drwy'r gwerthusiad, dylid dadansoddi gwybodaeth reoli a gedwir gan bob sefydliad AU er mwyn nodi patrymau cynnydd a pherfformiad a llywio trafodaethau dilynol â sefydliadau AU, colegau AB, a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW).

- 5.3 Mae strwythur llywodraethu'r rhaglen i'w weld yn llwyddiant arbennig a deallir ei fod wedi arwain at gryfhau'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC. Arweiniodd adolygiad trylwyr o'r opsiynau at gyllid grant i CCAUC i gyflenwi'r rhaglen – ymddengys yn dal mai dyma'r model mwyaf priodol i'w ddefnyddio. Bydd risgiau a nodwyd wrth fabwysiadu'r dull hwn a'r pryderon dilynol a godwyd fel rhan o'r ymchwiliad yn cael eu harchwilio yn ystod gwaith maes cam nesaf y gwerthusiad.

Argymhelliad

Dylai colegau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW) (ynghyd â chynrychiolwyr sefydliadau AU) gael eu cynnwys yng nghylch nesaf yr ymgynghori â rhanddeiliaid ar gyfer y gwerthusiad.

- 5.4 Mae tystiolaeth bod y rhaglen wedi cefnogi mwy o ymgysylltu rhwng sefydliadau AU a chyflogwyr ac mae hefyd wedi cryfhau partneriaethau rhwng sefydliadau AU, colegau AB a darparwyr DSW. Bydd strwythur y partneriaethau hyn, sut maent yn

esblygu a'r dyheadau ar eu cyfer, oll yn feysydd i'w hystyried yn y gwaith maes gyda'r grwpiau hyn.

- 5.5 Cyflogeion presennol a geir yn bennaf ymysg y rheiny sy'n cofrestru ar radd-brentisiaethau yng Nghymru, sy'n gwrthgyferbynnu â'r dystiolaeth am radd-brentisiaethau yn Lloegr. Maes allweddol ar gyfer gweddill y gwerthusiad fydd teithiau'r cyflogeion hyn i mewn i'r rhaglen (gan gynnwys y prif elfennau sy'n eu sbarduno i gymryd rhan) o'i gymharu â'r cyflogeion hynny sydd newydd gael eu recriwtio.

Y Camau Nesaf

- 5.6 Mae cam nesaf y gwerthusiad yn dechrau drwy ddylunio offer ymchwil (yn seiliedig ar y theori newid, y fframwaith gwerthuso, a chanfyddiadau o'r cyfweiliadau cwrmpasu) ar gyfer ymgysylltu â:
- sefydliadau AU
 - colegau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW)
 - cyflogwyr
 - prentisiaid
- 5.7 Cyn dechrau ar y gwaith maes, gofynnir i bob sefydliad AU am wybodaeth reoli fanwl ar gyflenwi'r rhaglen (gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer prentisiaid a chyflogwyr sy'n cymryd rhan drwy'r rhaglen).
- 5.8 Bydd sawl diben i'r wybodaeth reoli, gan gynnwys:
- Galluogi dadansoddi perfformiad, patrymau a thueddiadau o ddiddordeb, a'r cynnydd hyd yma yn erbyn meysydd allbwn a chanlyniadau allweddol yn y theori newid.
 - Nodi meysydd pellach i'w harchwilio'n fanwl yn yr ymgysylltu dilynol gyda sefydliadau AU i gasglu safbwyntiau ar batrymau cynnydd a darpariaeth.
 - Rhoi gwybodaeth i'r ffrâm sampl ar gyfer gwaith maes gyda chyflogwyr a phrentisiaid.
- 5.9 Yna, bwriedir cynnal cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid sy'n ymwneud â chyflenwi'r rhaglen Gradd-brentisiaeth. Disgwylir y bydd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau AU, colegau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith a bydd yn

archwilio'r prosesau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gradd-brentisiaethau ac unrhyw fyfyrddodau ar y rhain.

- 5.10 Mae cyfweiliadau ehangach â rhanddeiliaid hefyd wedi'u cynllunio gyda chynrychiolwyr sefydliadau eraill gan gynnwys Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSP), Prifysgolion Cymru, a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i gasglu eu barn am y rhaglen a'i chyfeiriad a'i ffocws i'r dyfodol. Ymhellach, ymgysylltir â'r cynrychiolwyr allweddol sy'n gysylltiedig â data'r Canlyniadau Addysg Hydredol (LEO) er mwyn trafod opsiynau ar gyfer datblygu'r fframwaith ar gyfer sefydlu'r effaith tymor hwy sy'n deillio o wneud gradd-brentisiaeth.
- 5.11 Bwriedir cynnal arolwg i brentisiaid gyda'r nod o ymgysylltu â thua thraean (200–250 o brentisiaid) o'r rhai sydd wedi cofrestru ar y rhaglen o 2018/19 ymlaen. Bydd yr arolwg yn pwysu'n drwm ar y meysydd cwestiynau a nodwyd yn y bennod flaenorol er mwyn cofnodi'r teithiau, cymhellion a phrofiadau, ynghyd ag unrhyw effeithiau sy'n deillio o'u cyfranogiad. Ymhellach, bydd yn rhoi'r cyfle i gasglu gwybodaeth allweddol am ddangosyddion i lywio'r gwaith o greu modelau gwerth am arian ar gyfer y rhaglen.
- 5.12 Bwriedir i'r cyfweiliadau â chyflogwyr gael eu cynnal ar yr un pryd â'r gwaith maes gyda phrentisiaid, gan ganolbwyntio ar archwilio'r meysydd trafod hynny a nodir yn y fframwaith. Yn ogystal, bydd y cyfweiliadau â chyflogwyr a phrentisiaid yn sail i ddatblygu detholiad bach o astudiaethau achos a fydd yn cyfleu'n glir deithiau cyflogwyr a phrentisiaid i mewn i'r rhaglen a thrwyddi. Yn ogystal, a phan ystyrir ei bod yn ymarferol gwneud hynny, ymgysylltir â chyflogwyr yn y sectorau targed sydd wedi dewis peidio â chymryd rhan yn y rhaglen Gradd-brentisiaeth. Edrychir ar ymarferoldeb llwybrau gwahanol o ymgysylltu â'r grŵp hwn o gyflogwyr yn y cyfweiliadau â'r rhai sy'n ymwneud â chyflenwi'r rhaglen.
- 5.13 Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith ar gyfer asesu gwerth am arian ac effaith tymor hwy gradd-brentisiaethau, archwilir ymarferoldeb nifer o feysydd allweddol:
- A yw setiau data Canlyniadau Addysg Hydredol (LEO) ar gael, a chwmpas y data hwnnw, gan fod potensial eu defnyddio i olrhain cynnydd enillion ymhlith gradd-brentisiaid.
 - I ba raddau y gellir cipio ystod o gostau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen i fod yn sail i'r asesiad gwerth am arian, gan gynnwys:

- Costau atgyfeirio
- Costau cynnal y rhaglen
- Costau gweinyddol
- Costau i gyflogwyr a phrentisiaid.
- Natur y buddion y gellid eu cipio, gan gynnwys:
 - Buddion economaidd: y rhai y gellir rhoi gwerth arnynt, yn enwedig gwerth ariannol, er mwyn cymharu yn erbyn costau'r rhaglen
 - Manteision nad ydynt yn rhai economaidd gan gynnwys buddion iechyd a lles.

5.14 Gyda'i gilydd, bydd cyflawni'r tasgau hyn yn creu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr ar gyfer ei dadansoddi, a hynny yn ei dro yn helpu i lunio'r adroddiad terfynol, y model gwerth am arian, a'r fframwaith ar gyfer asesu effaith tymor hwy y rhaglen.

Cyfeiriadau

- Bauer, W. a Gessler, M., 2016. *Dual vocational education and training systems in Europe: lessons learned from Austria, Germany and Switzerland* yn Vocational Education and Training in Sub-Saharan Africa, t.48.
- Beach, I. (2019) *The effectiveness of scrutiny for improving education practice: the case of modern apprenticeships*. Thesis MPhil(R), Prifysgol Glasgow.
- CCAUC (2019) [Gradd-brentisiaethau yng Nghymru a Chynigion ar gyfer Cyllid 2019/20](#).
- CCAUC (2020) [Gradd-brentisiaethau yng Nghymru a Chynigion ar gyfer Cyllid 2020/21](#).
- CCAUC (2021) [Gradd-brentisiaethau yng Nghymru a Chynigion ar gyfer Cyllid 2021/22](#).
- Culpepper, Pepper D. (2007) 'Small States and Skill Specificity: Austria, Switzerland, and Interemployer Cleavages in Coordinated Capitalism'. *Comparative Political Studies*, 40(6).
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018). ["Prentisiaethau yng Nghymru"](#).
- Deißinger, Thomas. 2000. 'The German 'Philosophy' of Linking Academic and Work-based Learning in Higher Education: The Case of the 'Vocational Academies''. *Journal of Vocational Education & Training*, 52(4): 605–626.
- Diamond, I. (2016) *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr: adroddiad terfynol*, Llywodraeth Cymru, Caerdydd.
- Ervin, Williamson, Yates, a Hinson (2019) *Skilling Up: The Scope of Modern Apprenticeship*, Urban Institute.
- Govender, C.M. a Valand, T.I. (2021) *Work Integrated Learning for Students: Challenges and Solutions for Enhancing Employability*, Cambridge Scholars Publishing, Newcastle.
- Llywodraeth Cymru (2016a) *Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus – adroddiad ar addysg; recriwtio; cadw a dyrchafu menywod mewn astudiaethau a gyrfaedd cysylltiedig â STEM*.
- Llywodraeth Cymru (2016b) [Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg \(STEM\) mewn addysg a hyfforddiant: Cynllun Cyflawni i Gymru](#)
- Llywodraeth Cymru (2017). [Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru](#), WG30448 / ISBN digidol 978-1-4734-8640-9.
- Llywodraeth Cymru (2018). ["Prentisiaethau Cynhwysol: Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau 2018-21"](#), ISBN digidol: 978-1-78964-506-4, adalwyd o
- Llywodraeth Cymru (2019) *Ffyniant i Bawb: Y cynllun gweithredu ar yr economi*, Llywodraeth Cymru, Caerdydd.
- Messing-Mathie, A. (2015). *Building apprenticeship systems for middle-skill employment: Comparative lessons in innovation and sector-based strategies for apprenticeships*. National Academies Board on Science, Technology, and Economic Policy.
- Overman H. et al. (2015) *Apprenticeships, Evidence Review*, What Works for Local Economic Growth.
- QAA (2020) adnoddau cefnogi COVID-19: *The Impact of COVID-19 on Higher Education in Apprenticeships: An Overview of the Challenges Facing Higher Education Providers*, QAA.
- Reischl, K. (2008) *Bestandaufnahme der bisher in Deutschland akkreditierten dualen Studiengänge*. Bonn: Bund-Länder-Kommission.

Schaeffer, CM; Henggeler, SW; Ford, JD; Mann, M; Chang, R; Chapman, JE (2014). 'RCT of a promising vocational/employment program for high-risk juvenile offenders', *Journal of Substance Abuse Treatment*, Cyfrol 46, tt.114-148.

Senedd Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (2020) *Gradd-brentisiaethau*, y Senedd, Caerdydd.

Swyddfa Archwilio Cymru (2019). "[Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Llywodraeth Cymru](#)", cyfeirnod y ddogfen: 1536A2019-20, adalwyd o

Trampusch, C. (2010) 'Employers, the State and the Politics of Institutional Change: Vocational Education and Training in Austria, Germany and Switzerland'. *European Journal of Political Research*, 49(4): 545–573.

Trysorlys ei Mawrhydi (2020), *The Magenta Book: Central Government Guidance on Evaluation*. Trysorlys ei Mawrhydi, Llundain.

Universities UK (2019). "[The Future of Degree Apprenticeships](#)", ISBN978-1-84036-426-2, adalwyd o

Wavehill (2019) *Degree Apprenticeships Motivations Research*, Office for Students

Wieland, C. (2015) 'Germany's dual vocational-training system: Possibilities for and limitations to transferability'. *Local Economy*, 30(5), tt.577-583.